Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013-2023

Datblygu Cyfleoedd, Magu Hyder



Cydweithio i wneud Sir Ddinbych yn fan lle mae:

- Busnesau, sefydledig a newydd, yn tyfu a ffynnu
- Ein trefi a'n cymunedau yn fywiog ac yn ffynnu
- Trigolion yn mwynhau ansawdd bywyd da ac yn cymryd rhan yn yr economi lleol

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad	3
Ein huchelgais	4
Ble ydym ni arni?	5
Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu	9
thema1: Seilwaith ar gyfer twf	11
thema2: Busnesau wedi'u cefnogi a'u cysylltu	15
thema3: Cyfleoedd ar gyfer twf	17
thema4: Gweithlu medrus o ansawdd uchel	20
thema5: Trefi a chymunedau sy'n ffynnu	23
thema6: Sir Ddinbych wedi ei hyrwyddo'n dda	26
Cyflenwi'r strategaeth	28
Geirfa	31

Rwy'n falch o gyflwyno Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Cyngor Sir Ddinbych, Datblygu Cyfleoedd, Magu Hyder.

Amlygwyd Datblygu Economaidd fel un o brif flaenoriaethau Sir Ddinbych yn ein cynllun corfforaethol dros dymor y cyngor hwn. Rydym wedi gweithio'n galed dros y 12 mis diwethaf i ddatblygu'r strategaeth ac rwy'n hyderus mai'r blaenoriaethau sy'n amlygu eu hunain yw'r rhai cywir i Sir Ddinbych.

Fel y mae pob un ohonom yn gwybod mae'r economi, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, mewn trafferth ac mae'r strategaeth hon yn amlygu ein bwriad i chwarae ein rhan yn lleol gydag eglurder ac argyhoeddiad, ac rwy'n credu'n gryf bod gennym rôl arwyddocaol wrth alluogi twf a datblygu cyfleoedd drwy gydweithio'n agos gyda'n partneriaid.

Ein dyhead yw bod Sir Ddinbych yn sir gyda lefelau uchel o gyflogaeth a lefelau da o incwm ar gyfer preswylwyr ei holl drefi a'i chymunedau. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cydnabod y gwaith sy'n digwydd ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol a byddwn yn cofleidio'r rhaglen hon fel rhan o'n strategaeth.

Cynhaliom ymarferiad ymgynghori dros yr haf. Roedd yn ddwys ac yn gynhwysfawr. Rwyf wedi fy nghalonogi fod yr ymateb yn un positif ac fe gadarnhaodd i mi ein bod ar y trywydd cywir gyda'n gweledigaeth a'n blaenoriaethau. Mae'r adborth a dderbyniom hefyd wedi helpu ehangu manylion ein gweithredoedd mewn nifer o feysydd ac rwy'n edrych ymlaen rŵan i ddechrau arni a dechrau cyflawni ein Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

Rydym yn gobeithio'n fawr y gallwn ddatblygu cyfleoedd a magu hyder trigolion y sir hon a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth, a'r rhai a fydd yn gweithio gyda ni i'w gwireddu.

Y Cyng. Hugh Evans
Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd,
Cyngor Sir Ddinbych

Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi nodi 'Datblygu'r Economi Leol' fel un o'i 7 Blaenoriaeth Gorfforaethol. Yn yr un modd â chymunedau ledled Cymru, mae trigolion a busnesau Sir Ddinbych wedi pwysleisio pwysigrwydd adfywio'r economi leol a gosod sail gadarn ar gyfer pob datblygiad arall. Datblygwyd y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol hon i egluro sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei amcan corfforaethol.

Ar y cyfan, busnesau sy'n cyflenwi twf economaidd. Fel awdurdod lleol, fodd bynnag, mae llawer y gall Cyngor Sir Ddinbych ei wneud – ar ben ei hun a gyda'i bartneriaid – i ddathlu a chefnogi'r amodau sy'n gallu caniatáu'r busnesau hynny i fod yn llwyddiannus a ffynnu.

Mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar Dwf a Swyddi Cynaliadwy sy'n ceisio "cryfhau'r amodau a fydd yn galluogi busnes i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy". Felly, mae ein Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol, yn canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ni ei wneud dros ein hunain a gyda'n partneriaid i gefnogi'r amodau hynny ar gyfer twf.

Nid yw llwyddiant busnes ynddo'i hun, fodd bynnag, yn ddigon. Ein bwriad yw y bydd twf economaidd yn arwain at well canlyniadau ar gyfer trigolion Sir Ddinbych. Ein dyhead yw bod Sir Ddinbych yn sir gyda lefelau uchel o gyflogaeth a lefelau da o incwm ar gyfer trigolion ei holl drefi a'i chymunedau.

Mae strategaeth adfywio diweddar Llywodraeth Cymru, "Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid" yn cefnogi'r dyhead hwn, a'u gweledigaeth yw y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, llawn addewid a chynaliadwy gydag economïau lleol cryf ac ansawdd bywyd da.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu'n uchelgais i economi leol Sir Ddinbych a'r bendithion y disgwyliwn i dwf economaidd eu cynnig i'n trigolion. Mae'r Cynllun Darparu amgaeedig yn disgrifio'r camau y byddwn yn eu cymryd, efo partneriaid eraill yn Sir Ddinbych a Gogledd Cymru, i wireddu'n huchelgais.

Mae'n Strategaeth hirdymor na chaiff ei chyflawni dros nos. Ein gobaith, fodd bynnag, yw y bydd ein camau'n cael effaith ac rydym wedi nodi mesurau y gallwn feirniadu'n llwyddiant yn eu herbyn. Nid yw'r Strategaeth yn sefyll ar ei thraed ei hun. Caiff ei hategu a'i chefnogi gan amryw o strategaethau allweddol eraill, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol a gymeradwywyd yn ddiweddar, Cynllun Mawr Sir Ddinbych, Strategaeth Adfywio Y Rhyl yn Symud Ymlaen a'r rhaglen Moderneiddio Addysg, i enwi dim ond rhai.

Ein nod yn y pen draw yw i'n gweithredoedd dan y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'n rhaglenni polisi allweddol eraill ganiatáu i fusnesau Sir Ddinbych fynd o nerth i nerth gan gynnig swyddi o safon uchel, gyda chyflogau da, sy'n cynnig boddhad i'n trigolion a rhoi modd iddynt o fwynhau ansawdd bywyd da yn ein trefi a'n cymunedau. Os byddwn yn llwyddo, gallwn ddisgwyl gweld gostyngiad mewn diweithdra, cynnydd mewn incwm aelwydydd, gwell cyfraddau geni a chynaliadwyedd i fusnesau, a mwy o weithgarwch economaidd a chyfranogiad yn gyffredinol ar draws y sir.

Dr Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr

Ein disgwyliad yw y gall twf economaidd lleol arwain at well canlyniadau i'n trigolion yn seiliedig ar fodel economaidd sy'n cysylltu llwyddiant busnes gyda chynnydd mewn cyfleoedd gwaith, gan arwain at lefelau uwch o incwm a chynnydd mewn grym gwario a fydd, yn ei dro, yn helpu cynnal trefi a chymunedau bywiog. Mae trefi a chymunedau bywiog o ran eu hunain yn annog galw gan ddefnyddwyr, gan arwain at fusnesau mwy llwyddiannus a mwy o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth.

Rydym yn cydnabod bod hon yn olwg syml ar yr economi, serch hynny rydym yn credu ei bod yn gadarn. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, er mwyn cael yr effaith fwyaf positif, y bydd rhaid i ni weithio'n galed i annog cymaint o'r twf a'r cyfoeth hwnnw ag y bo modd i'w ailgylchredeg yn economi, busnesau a chymunedau Sir Ddinbych.

Rydym hefyd yn cydnabod na allwn edrych o fewn Sir Ddinbych yn unig i sicrhau twf economaidd. Nid yw'r economi'n cydnabod ffiniau trefniadol. Os ydym am gyflawni'r canlyniadau rydym yn dymuno i drigolion Sir Ddinbych, bydd angen i ni edrych ymhellach i ffwrdd - ar economïau cyfagos yng Ngogledd Cymru a'r tu hwnt - er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd gorau sydd ar gael ar gyfer ein trigolion a'n busnesau.

Mae'r strategaeth felly'n edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud yn Sir Ddinbych i gymell a chefnogi twf economaidd a chreu swyddi, a hefyd sut y gallwn gysylltu trigolion a busnesau Sir Ddinbych gyda chyfleoedd y tu allan i'r sir.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod fod Sir Ddinbych yn gymuned ddwyieithog. Mae hyn yn dod â nifer o fanteision, nid lleiaf o ran diwylliant a hunaniaeth unigryw. Mae'r cyfrifiad diweddaraf, fodd bynnag, yn awgrymu bod angen gwrthdroi'r dirywiad yn nifer y trigolion sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg yn rhugl. Mae'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn ceisio chwarae ei rhan yn hyn - drwy hyrwyddo manteision dwyieithrwydd yn y gymuned fusnes ac yn ehangach o fewn cymdeithas yn gyffredinol, a hefyd drwy greu'r amodau i dyfu mwy o swyddi gwerth uwch, yn lleol ar gyfer trigolion y sir.

Datblygwyd ein Strategaeth i gyd-fynd ag ymagwedd gyffredinol Llywodraeth Cymru tuag at dwf economaidd cynaliadwy a hefyd blaenoriaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wrth iddo weithio i drawsnewid economi Gogledd Cymru, gan wella cynhyrchiant, y gallu i gystadlu a thwf, gan arwain at gymunedau mwy ffyniannus i bawb.

Ble ydym ni arni?

Ein lleoliad
Mae gan Sir Ddinbych ardal o 844 km2 ac mae ganddi boblogaeth o tua 94,000.

Mae economi Sir Ddinbych yn amrywiol. Yn ardal ogleddol fwy trefol y sir, trefi glan môr y Rhyl a Phrestatyn sy'n dominyddu ac mae'r sectorau mân-werthu, hamdden a thwristiaeth yn parhau i fod yn brif gyflogwyr. Hefyd yn y gogledd, fodd bynnag, mae Parc Busnes Llanelwy – sy'n gartref i glwstwr optoelectroneg ac mae'n barc busnes o bwys strategol yn y rhanbarth, gyda rhagolygon da ar gyfer twf.

Ymhellach i'r de, mae Sir Ddinbych yn wledig ei natur yn bennaf, a nodweddir gan rwydwaith o drefi bach a phentrefi wedi'u lleoli mewn amgylchedd tirlun o ansawdd uchel. Mae twristiaeth ac amaethyddiaeth yn sectorau allweddol. Mae parciau diwydiannol a busnes llai yn cynnig gofod ar gyfer diwydiant ysgafn a busnesau ar draws y sir. Mae amgylchedd naturiol Sir Ddinbych yn gryfder economaidd pwysig ac yn ased i'r sir.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol a gymeradwywyd yn ddiweddar yn dyrannu 50 hectar ychwanegol o dir cyflogaeth, gan gynnwys Safle Strategol Allweddol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg ym Modelwyddan yng ngogledd y sir, yn agos at leoliad presennol Parc Busnes Llanelwy, yn ogystal ag estyniadau i Barc Busnes Llanelwy ei hun a safleoedd eraill yn Ninbych, Rhuthun a Chorwen. Rhagwelir bod y potensial i'r dyraniadau hyn gefnogi 8,000 o swyddi newydd yn y sir, heb gynnwys swyddi adeiladu.

Gwasanaethir Gogledd Sir Ddinbych gan brif goridorau cludiant rheilffordd Gogledd Cymru a chefnffordd yr A55. Nid yw cysylltiadau cludiant mor gryf yng ngweddill y sir ac mae gwendidau yn y prif lwybrau eu hunain ac mae hefyd angen mynd i'r afael â hynny. Gellid gwella cysylltiadau ar draws y sir gyfan. Mae lefelau uchel o gymudo i mewn ac allan yn nodweddion allweddol o economi leol Sir Ddinbych. Mae mynediad hawdd o Sir Ddinbych i 2 faes awyr rhyngwladol (Manceinion a Lerpwl) a 2 borthladdoedd rhyngwladol (Caergybi a Lerpwl/Penbedw).

Mae cysylltiadau rhwng Sir Ddinbych ag awdurdodau ac economïau cyfagos. Yn ogystal â bod yn rhan annatod o economi Gogledd Cymru, gyda'r pum Cyngor lleol eraill, mae cysylltiadau agos hefyd rhwng Sir Ddinbych ag economïau Mersi a'r Ddyfrdwy/ Sir Caer a Warrington. Mae llawer o gymunedau a busnesau yn Sir Ddinbych o fewn pellter teithio hawdd i gyfleoedd yn economïau cryf a chystadleuol rhanbarthau dinesig Lerpwl a Manceinion. Mae cyfleoedd pellach yn cynnig eu hunain o fewn y 7 Ardal Fenter sydd o fewn pellter teithio o tua 60-90 munud i Sir Ddinbych.

Ein gweithlu
Yn gyffredinol, mae gweithgarwch economaidd Sir Ddinbych ychydig yn uwch na lefel Gogledd Cymru ond yn is na'r DU yn gyffredinol. Mae hyn yn cuddio pocedi o segurdod economaidd ac amddifadedd sylweddol, fodd bynnag, gydag ardaloedd o Rhyl a Dinbych Uchaf ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae diweithdra'n fwyaf amlwg ymysg trigolion ieuengach, a phobl rhwng 16 a 24 oed yw'r rhai a effeithir fwyaf.

Mae'r dirwasgiad wedi arwain at ostyngiad sydyn yng nghyfanswm swyddi Sir Ddinbych ers 2008. Bu cyfradd y dirywiad yn fwy serth nac yng ngweddill Gogledd Cymru.

Mae Sir Ddinbych yn ardal boblogaidd ymysg pobl sy'n ymddeol ac mae ei phoblogaeth yn hŷn na'r proffil oedran cyfartalog. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau i godi. Mae pobl ifanc, yn enwedig rhai rhwng 18 a 35 mlwydd oed, yn tueddu gadael Sir Ddinbych, yn aml i gael swyddi neu addysg bellach/uwch. I gael economi ffyniannus, mae angen digon o bobl o oedran gwaith sydd â'r sgiliau cywir er mwyn i'r farchnad lafur weithredu'n effeithiol. Mae mynediad i waith, cyfleoedd dysgu a hyfforddiant addas a chyfleoedd tai fforddiadwy yn ffactorau allweddol wrth ddenu a chadw poblogaeth iau o oed gwaith.

Mae cyfraddau cymwysterau ymysg y boblogaeth o oed gwaith yn debyg i gyfraddau gweddill y DU, er bod tuedd i lai o drigolion fod wedi'u haddysgu hyd at lefel gradd. Mae pocedi o gyflawniad is yn bodoli, ond rydym yn mynd i'r afael â'r rhai drwy wneud gwelliannau sylweddol i ansawdd dysgu ac addysgu. Mae perfformiad awdurdod addysg Sir Ddinbych yn dda ac mae ysgolion yn cefnogi pobl ifanc i gyflawni cymwysterau da, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi nodi fod y nifer fechan o bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau ffurfiol yn faes i'w wella.

Nododd ychydig dan chwarter (24.6%) poblogaeth Sir Ddinbych eu bod yn siaradwyr Cymraeg, y 6ed gyfradd uchaf yng Nghymru. Mae canran uwch o'r siaradwyr Cymraeg hynny'n byw yn ne'r sir o'i gymharu â'r gogledd. Mae canran sylweddol a chynyddol o fyfyrwyr ysgol Sir Ddinbych yn derbyn addysg ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg. Nod polisi addysg y Cyngor yw sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gadael addysg llawn amser yn gymwys ac yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Bydd creu rhagor o swyddi a swyddi gwerth uchel yn lleol yn helpu cadw talent yn y sir.

Mae hunaniaeth a diwylliant Cymreig Sir Ddinbych yn asedau cryf i fanteisio arnynt, yn enwedig ond heb fod wedi'i gyfyngu i'r sector twristiaeth. Rydym yn awyddus i fanteisio ar hyn, er budd economi Sir Ddinbych yn ogystal â'i diwylliant a'i chymuned.

Mae rhan fwyaf y boblogaeth yn byw yn yr ardal drefol yng ngogledd y sir. Gall cludiant a mynediad fod yn broblemau i drigolion a busnesau yn rhai o ardaloedd mwy gwledig Sir Ddinbych, ac mae cysylltiadau ar draws y sir yn parhau i fod yn bryder.

Ein busnesau

Mae'r saith prif sector o safbwynt cyflogaeth yn Sir Ddinbych yn cynnwys gwasanaetha iechyd, mân-werthu, addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus, bwyd a diod, gwaith cymdeithasol a gofal preswyl. At ei gilydd, mae'r saith sector yn cyfrif am ddwy ran o dair o'r gweithlu.

Y sector cyhoeddus, yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol, yw prif ffynhonnell swyddi Sir Ddinbych. Cyfran o swyddi yn y sector cyhoeddus yw'r uchaf yn unrhyw ardal awdurdod lleol yn y DU. O ganlyniad, mae cyfyngiadau parhaus ar gyllid y sector cyhoeddus yn risg ar gyfer economi Sir Ddinbych.

Yn yr un modd, fodd bynnag, mae buddsoddiad y sector cyhoeddus, yn enwedig mewn prosiectau adeiladu, yn parhau i gynnig cyfleoedd economaidd sylweddol. Bwriad Fframwaith Caffael Adeiladu Gogledd Cymru yw helpu chwe Chyngor Gogledd Cymru i gydbwyso'r angen i sicrhau contractau adeiladu gwerth gorau a manteisio'n llawn ar effaith y gwariant o £200M a ragwelir yn yr economi leol.

Mae'r gyfran uchel o swyddi yn y sector cyhoeddus hefyd yn cynnig cyfle i ddiogelu a hybu sgiliau iaith dwyieithog yn y gweithle.

Mae tueddiad i swyddi sector preifat yn Sir Ddinbych fod yn y sectorau mân-werthu, twristiaeth neu hamdden, ac mae llawer ohonynt yn dymhorol ac ar gyflogau is. Fodd bynnag, mae sail gweithgynhyrchu uwch cynyddol yn y sector optoelectroneg ac mae presenoldeb cryf mewn adeiladu a chrefftau cysylltiedig yn y sir hefyd.

Mae amaethyddiaeth hefyd yn ffynhonnell gyflogaeth bwysig yn y sir. Fodd bynnag, mae nifer o'r ffermydd yn Sir Ddinbych yn dibynnu ar Bolisi Amaeth Cyffredin yr UE am gyfran sylweddol o'u hincwm, a bydd y newidiadau sy'n dod i rym o 2014 yn effeithio ar hyn. Mae ein cyswllt â'r sector amaeth yn Sir Ddinbych wedi bod yn gyfyngedig hyd yma.

Ble ydym ni arni?

Bu gostyngiad yn y nifer o fusnesau gweithredol yn Sir Ddinbych ers dechrau'r dirwasgiad, ond mae mwy o fusnesau gweithredol yn ôl poblogaeth yn y sir na Chymru gyfan. Mae nifer sylweddol o'r rhain yn fusnesau bach a bach iawn (llai na 50 o weithwyr), gyda nifer cyfatebol is o fusnesau canolig a mawr. Mae cyfraddau hunangyflogaeth yn cyfateb â gweddill y DU, er eu bod yn uwch na Chymru'n fwy cyffredinol.

Mae angen i ni wneud rhagor i ddeall cyfansoddiad busnesau Sir Ddinbych ac anghenion ei busnesau. Byddwn yn canolbwyntio ar hyn drwy gydol oes y Strategaeth hon.

Ein partneriaid

Ynghyd â'r pum Cyngor arall yng Ngogledd Cymru, mae Sir Ddinbych yn aelod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i drawsnewid a thyfu economi Gogledd Cymru. Mae wedi nodi tri maes blaenoriaeth ar gyfer sylw - y sector Gweithgynhyrchu Uwch, y sector Ynni a'r Amgylchedd, a hyrwyddo Gogledd Cymru ar gyfer mewnfuddsoddi. Mae'r Bwrdd hefyd wedi nodi Isadeiledd a Chysylltiadau, Sgiliau a Chyflogaeth, a Chaffael Lleol fel meysydd pwysig sydd angen sylw. Bydd llawer o gamau gweithredu'r Strategaeth hon yn ategu ac yn cyfrannu at y blaenoriaethau rhanbarthol hyn.

Gan edrych ymhellach i ffwrdd, mae Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan yr ardal economaidd sy'n cynnwys Gogledd Ddwyrain Cymru, Gorllewin Sir Gaer a Chilgwri. Gweithgynhyrchu, yn enwedig y diwydiannau moduron ac awyrennau, y diwydiannau cemegol, gwasanaethau ariannol a'r diwydiannau bwyd yw prif elfennau'r ardal economaidd hon, llawer ohoni o fewn cyrraedd hawdd ac yn gallu cynnig cyfleoedd cyflogaeth a masnachol i drigolion a busnesau Sir Ddinbych. Rydym yn rhagweld y bydd Partneriaeth Fenter Leol Sir Gaer a Warrington hefyd yn dod yn bartner cynyddol bwysig.

Mae cyfleoedd Addysg Bellach ac Uwch ar gael yn lleol drwy Grŵp Coleg Llandrillo Menai, Coleg Cambria, a Phrifysgolion Glyndŵr, Bangor a Chaer. Bydd ein gwaith ar greu Gweithlu Medrus yn cael ei gyflawni i raddau helaeth mewn partneriaeth â'r partneriaid hyn, yn lleol a thrwy brosiect Sgiliau a Chyflogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych wedi amlygu economi ffyniannus a chynaliadwy a gweithlu medrus yn ganlyniad sy'n flaenoriaeth iddynt. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dwyn ynghyd partneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i weithio ar y cyd er lles trigolion lleol. Mae'r economi'n debyg o barhau i fod yn bwnc o ddiddordeb i'r holl bartneriaid dros y blynyddoedd nesaf.

Yn ardal wledig Sir Ddinbych, datblygwyd partneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig gweithredol i dargedu cyfleoedd sy'n deillio o gronfeydd cyllid gwledig yr Undeb Ewropeaidd. Mae rhaglenni datblygu gwledig amrywiol eisoes yn cael eu cyflwyno. Mae'n hanfodol cynnwys cymunedau wrth ddatblygu a gweithredu eu prosiectau eu hunain a bydd yn parhau i fod yn hanfodol. Y bwriad yw y bydd y Strategaeth hon yn ein helpu i ganolbwyntio'n gwaith yn fwy penodol yn rownd nesaf arian yr UE a darparu fframwaith strategol y gellir seilio amrywiaeth gadarn o fentrau lleol arno.

Mae sector gwirfoddol a thrydydd sector Sir Ddinbych yn gryf ac yn gwneud cyfraniad positif i fywyd cymunedol y sir, gyda chefnogaeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Rydym yn credu y bydd sector gwirfoddol a thrydydd sector Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad cynyddol bwysig at ei heconomi dros y blynyddoedd i ddod.

Mae ein partneriaid, Menter Iaith Sir Ddinbych a Phopeth Cymraeg, yn gwneud cyfraniad pendant tuag at gefnogi busnesau a chymunedau lleol i fanteisio ar botensial y Gymraeg a diwylliant a hunaniaeth Gymreig ar gyfer yr economi leol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw ar yr her hon.

Er bod rhwydweithiau lleol o fusnesau ar draws Sir Ddinbych, mae angen rhoi rhagor o sylw i'n cyswllt â'r gymuned fusnes yn gyffredinol. Mae ein cyswllt â grwpiau busnes lleol yn anghyson a gellid ei wella. Er ein bod yn datblygu perthynas waith dda gyda Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn lleol, nid yw ein cyswllt â sefydliadau cynrychiadol eraill fel y CBI a'r Siambr Fasnach wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru, a ffurfiwyd yn ddiweddar, yn cynnig cyfle pellach am gyswllt strategol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella cysylltiadau â'r gymuned fusnes drwy gydol oes y Strategaeth hon.

Perfformiad ein heconomi

- Mae gennym Werth Ychwanegol Crynswth (GVA) is na gweddill y DU, tuedd sydd wedi ehangu ers y dirwasgiad. Mae lefelau hefyd yn is nag economïau cyfagos i'r dwyrain (Sir y Fflint/Wrecsam).
- Mae cyfraddau cychwyn, cau a goroesiad busnesau wedi gwaethygu ers dechrau'r dirwasgiad, gyda'r bwlch rhwng Sir Ddinbych a gweddill y DU yn lledu. Nid yw ein perfformiad yn well na gweddill Gogledd Cymru ar y mesur hwn bellach.
- Mae ein cyfradd ddiweithdra'n debyg i lefelau cyfartalog y DU, ond mae nifer y bobl sy'n anweithredol yn economaidd oherwydd iechyd gwael neu ymddeoliad yn uwch.
- Mae ein perfformiad cyfartalog cyffredinol yn cuddio pocedi o amddifadedd sylweddol yn y Rhyl a Dinbych Uchaf
- Mae incymau canolrif aelwydydd yn is yn Sir Ddinbych na'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill Cymru. Mae'r bwlch rhwng lefelau incwm ar draws y sir yn ehangu.
- Dominyddir swyddi'n Sir Ddinbych gan y sector cyhoeddus, a dominyddir swyddi sector preifat gan swyddi sy'n aml yn dymhorol ac yn cynnig cyflogau is yn y sectorau twristiaeth, mân-werthu a hamdden.
- Bu gostyngiad sydyn yn y nifer o swyddi yn Sir Ddinbych ers dechrau'r dirwasgiad. Mae'r dirywiad wedi bod yn fwy sydyn na gweddill Gogledd Cymru.
- Yn gyffredinol, nid yw rhagolygon twf y sectorau sy'n darparu'r rhan fwyaf o gyflogaeth yn Sir Ddinbych yn rhai cryf.
- Mae ardaloedd o dwf economaidd cadarn o fewn cyrraedd hawdd yn cynnig cyfleoedd masnachol ac ar y gadwyn gyflenwi i fusnesau Sir Ddinbych a chyfleoedd cyflogaeth i drigolion Sir Ddinbych. Mae lefelau uchel o gymudo i mewn ac allan yn nodwedd o economi Sir Ddinbych.
- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol a gymeradwywyd yn ddiweddar wedi dyrannu 50 hectar ychwanegol o dir cyflogaeth, ac amcangyfrifir y gall hyn gynnal 8,000 o swyddi newydd. Bydd dyrannu 7,500 o unedau tai'n cynnig cartrefi ychwanegol i ddenu a chadw pobl oed gwaith yn y sir.
- Amcangyfrifir mai gwerth llawn economi Gogledd Cymru yw oddeutu £10bn y flwyddyn sy'n oddeutu 25% o economi Cymru gyfan. Cwmnïau Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am bron i 30% o gynnyrch gweithgynhyrchu Cymru.
- Yn fwy cyffredinol, amcangyfrifir fod yr economi ar hyd coridor yr M56/A55 o Fanceinion i Gaergybi yn cynhyrchu deilliant o £31bn y flwyddyn. Mae'r economi o amgylch Glannau Mersi hefyd yn tyfu a bydd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol.
- Mae Sir Ddinbych mewn lleoliad daearyddol da i fanteisio ar y meysydd hyn o dwf economaidd, trwy swyddi i'w thrigolion a chyfleoedd masnachol i'w busnesau.

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

Nid yw ein huchelgais yn cynnig ateb cyflym. Mae'n weledigaeth hirdymor, a bydd yn cymryd amser ac ymdrech i'w chyflawni. Rydym yn cydnabod ei bod yn uchelgeisiol, ac efallai na fyddwn yn gallu cyflawni hyn yn llawn yn ystod oes y strategaeth hon. Rydym hefyd yn deall y gallwn ond wneud cynnydd tuag at gyflawni'r uchelgais hon drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid. Ein bwriad yw i'r Strategaeth hon gynnig gweledigaeth ac arweiniad clir ar lefel lleol er mwyn caniatáu i'n blaenoriaethau unigol gyd-fynd er budd economi'r sir ac yn y pen draw ei thrigolion.

Os ydym am gymryd camau tuag at gyflawni'r weledigaeth a amlinellir yn ein Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol, rhaid i ni sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag ystod craidd o ffactorau sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd. Cafodd y rhain eu nodi'n feysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt ac mae'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni wedi'u strwythuro o amgylch y Themâu hyn.

Rydym yn credu y bydd Sir Ddinbych mewn sefyllfa well i gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer yr Uchelgais Economaidd a Chymunedol os byddwn yn canolbwyntio'n hymdrechion, a'r rhai'n partneriaid, ar weithio i gyflawni:

- Yr Isadeiledd cywir ar gyfer Twf
- Busnesau wedi'u Cefnogi a'u Cysylltu
- Manteisio'n llawn ar Gryfderau/Cyfleoedd Economaidd
- Gweithlu Medrus o Ansawdd Da
- Trefi a Chymunedau Llewyrchus
- Sir Ddinbych wedi'i Hyrwyddo'n Dda

Nid oes gennym yr adnoddau i wneud popeth. Mae'r Cynllun Cyflawni sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth hon yn disgrifio'n fanylach y camau y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y 4 blynedd nesaf er mwyn symud tuag at ein gweledigaeth tymor hirach.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni, rydym wedi gweithio'n galed i nodi a blaenoriaethu'r camau gweithredu y credwn fydd yn cael yr effaith fwyaf wrth fynd i'r afael â'r materion a'r heriau sy'n wynebu economi Sir Ddinbych, ac yn fwyaf tebyg o sicrhau'r manteision rydym eisiau ar gyfer ein busnesau a'n trigolion. Rydym hefyd wedi ceisio bod yn realistig am yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd gennym ni a'n partneriaid. Mae'r uchelgais, fodd bynnag, yn parhau i'n hymestyn yn fwriadol.

Wrth ddatblygu a chyflawni ein blaenoriaethau, byddwn yn cael ein harwain gan yr egwyddorion sylfaenol a ganlyn:

- Cynhwysol. Y bwriad yw i'r strategaeth gael effaith ledled y sir a chyflawni ein huchelgais economaidd a chymunedol ar draws gwahanol gymunedau Sir Ddinbych.
- Gwahaniaethol. Ar yr un pryd, byddwn yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â gwahanol anghenion (e.e, trefol a gwledig) ar draws y sir.
- Holistig. Nod y strategaeth hon yw darparu swyddi/cyfleoedd ar bob lefel - o lefel mynediad i lefel uwch - ac ar draws sectorau economaidd. Byddwn yn gweithio i osgoi bod yn rhy ddibynnol ar un sector unigol.
- Cytbwys. Bwriad y strategaeth yw cefnogi busnesau newydd a busnesau sefydledig, a busnesau o wahanol feintiau. Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer twf economaidd drwy dyfu busnesau cynhenid a mewnfuddsoddiad.
- Cynaliadwy. Nod y strategaeth yw darparu economi leol sy'n gynaliadwy ac yn wydn i newid dros y tymor hir, sy'n hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau, ac nad yw'n niweidio'r cryfder pwysig a gynigir gan yr amgylchedd naturiol o ansawdd uchel yn Sir Ddinbych.
- Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant. Bwriad y Strategaeth yw manteisio ar y cryfderau economaidd a gynigir gan hunaniaeth a diwylliant Cymreig cryf Sir Ddinbych, a mynd ati i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau, trigolion ac ymwelwyr.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau. Byddwn yn canolbwyntio'n hymdrechion ar y gweithredoedd rydym yn asesu a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y materion rydym yn ystyried sydd bwysicaf i fynd i'r afael â nhw. Byddwn yn blaenoriaethu yn unol â hynny.

O safbwynt y Gymraeg a Diwylliant Cymreig, rydym yn ymwybodol fod Comisiynydd y Gymraeg yn bwriadu gosod Safonau priodol i bob Cyngor yng Nghymru gadw atynt dros gyfnod penodol. Byddwn yn adolygu cyfraniad y Strategaeth hon i hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymreig yn sgil yr asesiad y disgwylir gan y Comisiynydd ddechrau 2014.

thema1: Seilwaith ar gyfer twf

Canlyniadau:

1. Mae gennym gysylltiadau cludiant effeithiol sy'n caniatáu pobl i gael mynediad i swyddi, ac i fusnesau gael mynediad i farchnadoedd / cwsmeriaid
2. Mae gennym rwydweithiau cyfathrebu digidol a llais modern sy'n diwallu anghenion busnesau, trigolion ac ymwelwyr
3. Mae gennym gyflenwad da o eiddo a thir busnes sydd ar gael yn rhwydd ac yn cefnogi busnesau sefydledig i dyfu a busnesau newydd i ddechrau

Mae cael yr isadeiledd cywir yn ei le'n hanfodol er mwyn sicrhau y gall busnesau ganfod y lleoliad cywir, o fewn cyrraedd rhwydd i weithlu perthnasol a'r gallu i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i gwsmeriaid a marchnadoedd perthnasol. Ar gyfer trigolion, gall yr isadeiledd cywir helpu gyda chysylltiadau i gyflogaeth, dysg a gwasanaethau. Gall Isadeiledd fod ar sawl ffurf, at ddibenion y strategaeth hon, rydym wedi canolbwyntio ar gludiant, rhwydweithiau cyfathrebu a thir ac eiddo busnes.

Mae cynllunio isadeiledd, yn enwedig ar gyfer cludiant, yn digwydd yn bennaf ar lefel rhanbarthol. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd rhan ymarferol yn y consortiwm cludiant rhanbarthol TAITH ac mae wedi cyfrannu'n ddiweddar at astudiaeth Cludiant Integredig Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru i fod i gael ei adnewyddu yn 2014 ac mae'n rhoi cyfle i ni hyrwyddo'r angen am fuddsoddi yn yr isadeiledd cludiant allweddol er mwyn cefnogi twf economaidd y sir. Byddwn yn sicrhau fod blaenoriaethau Sir Ddinbych yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun newydd.

Mae'r gwelliannau i'r isadeiledd digidol a fydd yn cael eu cyflwyno drwy brosiect Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru yn galonogol, yn enwedig yn ein cymunedau gwledig. Byddwn yn gweithio gyda'r cynllun hwn er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio'n llawn ar ei botensial ar gyfer Sir Ddinbych.

Problemau a Heriau

Mae ein dadansoddiad wedi nodi'r heriau allweddol a ganlyn y credwn sydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod gennym yr isadeiledd cywir ar gyfer twf:

Cludiant

1. Mae gwendidau sylweddol yn y rhwydwaith isadeiledd cludiant, yn enwedig o ran cysylltiadau ffordd Gogledd-De. Mae gwasanaethau trenau prif lein wedi'u cyfyngu i arfordir y Gogledd ac yn gyfyngedig o ran amlder. Mae cefnffordd yr A55 yn cynnig cysylltiadau Dwyrain-Gorllewin da ond hefyd risgiau gan ei bod yn osgoi trefi a chymunedau Sir Ddinbych. Mae tagfeydd yn broblem gynyddol. Nid yw'n ymddangos fod buddsoddiad sylweddol yn rhwydwaith ffyrdd strategol Sir Ddinbych a'r cyffiniau yn flaenoriaeth ar hyn o bryd mewn cynlluniau buddsoddi rhanbarthol neu genedlaethol.
2. Mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig yn yr ardaloedd mwy gwledig ac yn dameidiog ar draws y sir gyfan. Nid yw cludiant cyhoeddus ar hyn o bryd yn ddewis realistig i lawer o drigolion fel modd o deithio i'r gwaith ac fel rhan o'u gwaith. Gall amseroedd teithio fod yn hir, yn enwedig i leoedd y tu allan i'r Sir, ac mae gwasanaethau uniongyrchol i leoliadau cyflogaeth allweddol yn gyfyngedig iawn.
3. Mae costau cludiant yn gynyddol ddrud. Disgwylir i bris tocynnau bws a threnau godi'n gynt na chwyddiant cyffredinol, a bydd y farchnad betrol gyfnewidiol yn parhau i effeithio ar gostau tanwydd. Mae newidiadau i'r cymorthdaliadau sydd ar gael i gwmnïau bysiau'n peryglu prisiau a darpariaeth gwasanaethau bysiau. Yn ôl rhai adroddiadau, mae problemau gyda threfniadau teithio'n cyfyngu ar allu busnesau i recriwtio a thrigolion i ddod o hyd i swyddi addas. Ceir effaith niweidiol ar deithio ar gyfer gwaith.

Cyfathrebu

4. Mae perfformiad ac argaeledd gwasanaeth ffôn symudol a band eang yn llusgo y tu ôl i ardaloedd eraill yn y DU. Ein sgôr cyffredinol ar gyfer band eang yw 4 (5 yw'r sgôr gwaethaf) ac er y bydd perfformiad yn gwella'n gyffredinol pan fydd Cyflymu Cymru'n cyflwyno Band Eang Ffibr, mae'n bosibl y bydd rhai o'n cymunedau mwyaf gwledig yn parhau i dderbyn gwasanaeth gwael. Yn yr un modd, fel sir wledig, mae Sir Ddinbych yn wynebu problemau sylweddol gyda derbyniad ffonau symudol mewn nifer o gymunedau.
5. Nid oes gweledigaeth strategol ar gyfer anghenion a chyfleoedd digidol yn Sir Ddinbych. O'i gymharu ag ardaloedd eraill, nid yw gweledigaeth Sir Ddinbych o ran sut y gall technoleg ddigidol fod o fudd i'w busnesau a'i thrigolion wedi'i datblygu'n ddigonol.

Tir ac Eiddo Busnes

6. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn cyfyngu ar ddiddordeb datblygwyr mewn creu gofod newydd ar gyfer masnach a busnes. Mae'r dyddiau pan allai buddsoddwyr gefnogi cynlluniau datblygu hapfasnachol wedi mynd. Yn ogystal, mae diffyg isadeiledd allweddol i ganiatáu dechrau datblygu - mynediad, gwasanaethau ac ati - gall effeithio ar amseriad ac yn y pen draw ar hyfywedd datblygu safleoedd.
7. Mae diffyg tir ac eiddo busnes parod ar gael mewn sawl ardal ar draws y sir. Amlygodd dadansoddiad y Cynllun Datblygu Lleol alw am gyflenwad o 50 ha o dir tan 2021. Mae'r galw wedi'i wasgaru ar draws y sir, ond mae'r galw'n uwch ar hyd coridor yr A55. Bydd y dyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol yn helpu ond dim ond os gellir rhoi'r safleoedd ar waith yn gyflym.
8. Mae datblygiadau 'defnydd cymysg' yn peryglu safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd. Yn ddealladwy, mae datblygwyr yn ceisio sicrhau cymaint o elw â phosibl o unrhyw safleoedd a ddatblygir. O ganlyniad, bu tuedd o gael mwy o ddatblygiadau defnydd cymysg ar safleoedd a neilltuwyd yn swyddogol at ddefnydd cyflogaeth yn unig. Er y bydd y Cyngor yn parhau i fod â pholisi o ddiogelu safleoedd cyflogaeth, bydd cydbwyso'r posibilrwydd o golli tir cyflogaeth gyda'r risg na fydd unrhyw ddatblygiad o gwbl yn her sylweddol.
9. Gallai cystadleuaeth am fuddsoddiad gan yr Ardaloedd Menter a'r parciau busnes mewn siroedd ar hyd yr A55 ac yng Ngogledd Orllewin Lloegr wneud Sir Ddinbych yn llai deniadol fel lleoliad busnes.

Prif Gamau Gweithredu

Ein nod yw mynd i'r afael â'r materion a'r heriau, a sicrhau cynnydd tuag at ein canlyniadau strategol ar gyfer Isadeiledd drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Ffrwd waith 1.1: Cludiant

a) Gweithio drwy TAITH, canfod yr elfennau hynny o'r isadeiledd a'r rhwydwaith cludiant lleol a allai gyfyngu datblygiad economaidd lleol a sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynllun Cludiant Rhanbarthol diwygiedig a chynlluniau buddsoddi eraill fel y bo'n briodol
b) Arwain y gwaith o ddatblygu'r achos dros foderneiddio / trydanu gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru er mwyn sicrhau twf economaidd ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
c) Gwella integreiddiad gwasanaethau a gwybodaeth cludiant cyhoeddus lleol er mwyn ei wneud yn opsiwn mwy cyraeddadwy a realistig ar gyfer teithio i'r gwaith

Ffrwd waith 1.2: Digidol a Symudol

a) Datblygu Cynllun 'Sir Ddinbych Ddigidol', gan gynnwys:
   i. Gwaith cynhwysfawr i fapio darpariaeth cyfathrebu a ffonau symudol ar draws y sir, gan gynnwys mannau gwan
   ii. Gwelliannau isadeiledd wedi'u targedu yn ôl yr angen i gyd-fynd â'r prosiect Cyflymu Cymru
   iii. Datblygu sgiliau ar gyfer unigolion a busnesau
   iv. Cymell eu defnydd, gan gynnwys ar draws gwasanaethau'r Cyngor
   v. Nodi Hyrwyddwyr Digidol i ddathlu llwyddiant, rhannu arfer da a hyrwyddo Sir Ddinbych i fusnesau digidol

Ffrwd waith 1.3: Tir ac Eiddo

a) Creu un pwynt mynediad ar-lein sy'n casglu ac yn hyrwyddo tir ac eiddo busnes sydd ar gael ar draws pob sector
b) Canfod cyfyngiadau a chyfleoedd, a datblygu map ffordd i annog datblygu safleoedd datblygu strategol ar draws Sir Ddinbych, gan gynnwys cytuno ar Friffiau Datblygu fel y bo'n briodol.
c) Cynnal adolygiad o bortffolios eiddo diwydiannol a masnachol asiantaethau cyhoeddus yn lleol (CSDd, LIC, BIPBC ac ati) gan arwain at greu cynllun buddsoddi a datblygu strategol, gan gynnwys y posibilrwydd o gael unedau busnes deori a 'symud ymlaen'

Dangosyddion Llwyddiant

Os byddwn yn llwyddo yn ein gwaith o ddarparu'r isadeiledd cywir ar gyfer twf yn Sir Ddinbych, dylem ddisgwyl gweld:

- Llai o adroddiadau am anhawsterau teithio sy'n creu rhwystr i gyflogaeth
- Mwy o fusnesau'n gwerthu nwyddau a gwasanaethau i ardal ehangach
- Gwelliant cyffredinol ym mherfformiad band eang
- Darpariaeth rhwydwaith ffonau symudol da – o ran 3G a 4G - gyda mwy o eiddo'n gallu derbyn signalau gan amryw o ddarparwyr rhwydwaith
- Llai o leoliadau ar draws y sir sy'n 'fannau gwan' ar gyfer band eang a ffonau symudol
- Mwy o fynediad i WiFi ar draws Sir Ddinbych
- Mwy o fusnesau sy'n cymryd rhan mewn e-fasnach
- Safleoedd cyflogaeth strategol allweddol naill ai'n cael eu defnyddio neu'n barod i gael eu datblygu
- Gwell amrywiaeth o eiddo busnes ar gael ar draws Sir Ddinbych



thema2: Busnesau wedi'u cefnogi a'u cysylltu

Canlyniadau

1. Mae gennym wasanaethau cefnogi busnes hygyrch o ansawdd uchel sy'n rhwydd eu deall ac ar gael i fusnesau sefydledig a newydd
2. Mae gennym gymuned fusnes leol gref sy'n elwa o gysylltiadau da, gyda'i gilydd a gyda chyfleoedd y tu allan i'r sir
3. Mae gweithgarwch caffael Cyngor Sir Ddinbych o fudd i fusnesau a thrigolion lleol

Mae'r sefyllfa ariannol fyd-eang bresennol wedi cael effaith sylweddol ar fusnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig eu maint. Mae'r Mynegai Llais Busnesau Bach gan Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) Cymru yn parhau i adrodd fod busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru gryn dipyn yn llai optimistaidd am eu rhagolygon busnes na busnesau tebyg yng ngweddill y DU. Mae'r sefyllfa ariannol fyd-eang bresennol hefyd wedi cael effaith andwyol ar gyfraddau geni a goroesi busnesau yn Sir Ddinbych. Rydym yn dymuno gwrthdroi'r duedd hon.

Ar y cyfan, busnesau sy'n sicrhau twf economaidd. Fel ardal wledig, mae cyfran uwch o fusnesau bach a bach iawn yn Sir Ddinbych nag economïau mwy trefol. Bydd unrhyw beth sy'n cyfyngu ar allu'n busnesau lleol i lwyddo yn cael effaith sylweddol ar ein heconomi leol. Rydym eisiau i Sir Ddinbych gael ei hystyried yn lleoliad lle mae'n hawdd gwneud busnes.

Fel sir ddwyieithog, rydym hefyd yn cydnabod y gallai busnesau fod angen cymorth a chefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithrediadau busnes. Rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu gyda busnesau yn eu dewis iaith a chefnogi busnesau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithrediadau. Mae'r gefnogaeth a roddodd Menter Iaith Sir Ddinbych i fusnesau lleol yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yr haf hwn yn enghraifft dda.

Mae adrannau eraill o'r Strategaeth hon yn mynd i'r afael â rhai o'r ffactorau a allai effeithio ar lwyddiant busnes - argaeledd gweithlu addas, isadeiledd i gefnogi gweithrediadau busnes, a gweithgareddau i ysgogi galw. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gymorth i fusnesau eu hunain, yn ogystal â ffyrdd y gall busnesau gysylltu'n well â'i gilydd - i brynu a gwerthu, ond hefyd i ddysgu oddi wrth ei gilydd a chefnogi ei gilydd. Rydym yn awyddus i weld y gadwyn gyflenwi o fusnes i fusnes yn cryfhau yn Sir Ddinbych.

Problemau a Heriau

Mae ein dadansoddiad wedi nodi'r heriau allweddol canlynol y credwn sydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth cywir i fusnesau a'u galluogi i gysylltu'n well – gyda'i gilydd ac o ran cyfleoedd ar gyfer twf:

1. Ystyrir fod gwasanaethau cymorth a chyngor busnes yn gymhleth, dryslyd ac yn anodd cael mynediad iddynt a bod ystod eang o ddarparwyr yn cystadlu. Mae tirlun cymhleth o asiantaethau'n cynnig cymorth a chyngor i fusnesau ac mae nifer o wahanol fentrau a rhaglenni i fusnesau gymryd rhan ynddynt. Mae busnesau wedi dweud wrthym ei bod yn eithriadol o anodd canfod ffordd drwy'r ddrysfa hon ac nad yw'n ymddangos eu bod yn gweithio gyda'i gilydd yn aml.
2. Mae cael mynediad i gyllid a chredyd busnes yn parhau i fod yn broblem. Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach yn parhau i ganfod fod mynediad gwael i gyllid yn rhwystr rhag twf ei aelodau. Mae cost cyllid hefyd wedi bod yn broblem i nifer o fusnesau bach. Mae llif arian yn dal yn her i fusnesau, yn enwedig busnesau bach a busnesau bach iawn.
3. Mae nifer o fusnesau'n ystyried fod trethi busnes yn ddrud ac yn ddryslyd. Ychydig iawn o ddylanwad sydd gan y Cyngor dros bolisi trethi busnes gyda Llywodraethau Cymru a'r DU yn gosod yr agenda. Serch hynny, mae cyfle gennym i wneud sylwadau a byddwn yn parhau i lobïo am ragor o hyblygrwydd a mwy o lais dros benderfyniadau a wneir ar drethi busnes yn lleol.
4. Mae cyswllt a rhwydweithio busnesau ar draws Sir Ddinbych yn anghyson a thameidiog. Mae gennym nifer fawr o rwydweithiau lleol a rhanbarthol y gall busnesau Sir Ddinbych berthyn iddynt, ond nid oes gennym unrhyw bwynt cyswllt canolog neu gorff ymbarél amlwg. O ganlyniad, nid ydym yn gwybod pa mor gynhwysfawr yw darpariaeth y

rhwydweithiau presennol, na sawl busnes sy'n cymryd rhan. Credwn fod rwydweithiau busnes effeithiol yn cynnig mantais amlwg i'r economi leol.

5. Mae nifer o fusnesau'n ystyried gwasanaethau rheoleiddio cynghorau yn rhy gymhleth a biwrocrataidd, ac yn rhwystr rhag twf. Nododd Tasglu'r DU fod rheoleiddio cymhleth a 'thâp coch' yn faich diangen ar fusnesau a'r economi. Ers hynny, mae gweinyddiaethau ar draws y DU wedi ceisio cyflwyno dull symlach ar sail egwyddorion cymesuredd, atebolrwydd, cysondeb, eglurder a chamau gweithredu wedi'u targedu.
6. Cyfyngwyd ar allu'r Cyngor i gyfeirio ei weithgarwch caffael i fusnesau lleol gan reoliadau caffael a'r angen i gynnig gwerth am arian drwy gael contractau rhatach. Nid y dymuniad i gefnogi'r economi leol yw unig gymhelliant gweithgarwch caffael y Cyngor, ond hefyd yr angen i sicrhau fod gwariant cyhoeddus yn cynnig gwerth am arian. Gall fod yn heriol i gydbwyso'r blaenoriaethau hyn a allai fod yn cystadlu.
7. Mae lefelau caffael lleol wedi'u cyfyngu hefyd gan allu busnesau lleol i ddiwallu anghenion cyflenwi'r Cyngor. Mae busnesau llai yn arbennig yn aml yn ei chael yn anodd deall a chydymffurfio â gofynion y prosesau caffael cyhoeddus a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Prif Gamau Gweithredu

Ein nod yw mynd i'r afael â'r materion a'r heriau, a sicrhau cynnydd tuag at ein canlyniadau strategol ar gyfer Busnesau wedi'u Cefnogi a'u Cysylltu drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Ffrwd waith 2.1: Cymorth Busnes

a) Annog a chefnogi Strategaeth Dinas y Rhyl i estyn ei fenter Rhwydwaith Gynghori bresennol i Bartneriaeth Cyngor a Chymorth Busnes amlasiantaeth yn cynnwys pob asiantaeth a darparwyr presennol, gan greu datrysiad Siop Un Alwad ar gyfer busnesau sydd eisiau cyngor a chymorth
b) Sicrhau bod gwasanaethau rheoleiddio'r Cyngor yn mabwysiadu ymagwedd sy'n fwy cyfeillgar i weithrediad busnesau gan sicrhau cyn belled ag y bo modd, fod rheoleiddio'n gymesur, cyson, atebol, eglur ac wedi'i dargedu.
c) Datblygu diwylliant 'Cyfeillgar i Fusnes' ar draws holl Wasanaethau'r Cyngor.

Ffrwd waith 2.2: Cysylltiadau Busnes Lleol

a) Cefnogi a hwyluso rhwydweithio busnes effeithiol a mentora busnes i fusnes ar draws Sir Ddinbych
b) Ystyried sefydlu Wythnos Fusnes Sir Ddinbych a chynllun Gwobrau Busnes Sir Ddinbych
c) Cynnal dadansoddiad o'r gadwyn gyflenwi leol / prynu o fusnes i fusnes yn Sir Ddinbych i nodi meysydd lle mae angen gweithredu pellach
d) Ystyried sut i gyflawni cyswllt strategol effeithiol gyda chymuned Fusnes Sir Ddinbych

Ffrwd Waith 2.3: Caffael CSDd

a) Sicrhau bod strategaeth gaffael ddiwygiedig CSDd yn ymgorffori Caffael Lleol effeithiol a dulliau Budd i'r Gymuned sy'n cefnogi busnesau lleol ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol
b) Cyflawni gweithgareddau Datblygu Cyflenwyr ac Ymgysylltu effeithiol i wella gallu busnesau lleol i gymryd rhan yn effeithiol mewn cyfleoedd caffael cyhoeddus

Dangosyddion Llwyddiant

Os byddwn yn llwyddiannus yn ein gwaith i alluogi gwell cymorth a chyswllt rhwng busnesau yn Sir Ddinbych, byddem yn disgwyl gweld:

- Mwy o fusnesau'n ei chael yn haws i chi dderbyn cyngor a chymorth Busnes, ac yn elwa o'r cyngor a'r gefnogaeth a dderbynnir
- Rhwydweithiau busnes mwy effeithiol ar draws y sir, yn dod a budd mesuradwy i'w haelodau
- Busnesau lleol yn sicrhau mwy o fusnes gan Gyngor Sir Ddinbych a chontractau caffael cyhoeddus eraill
- Mwy o fusnesau a thrigolion yn elwa yn sgil cymalau Budd i'r Gymuned yng nghontractau Cyngor Sir Ddinbych

Canlyniadau

1. Rydym yn manteisio ar gryfder ein sectorau twristiaeth ac amaeth ac yn eu hannog i wneud cyfraniad fwyfwy cryf i economi Sir Ddinbych
2. Rydym yn manteisio ar gyfleoedd newydd ar gyfer twf, gan ganolbwyntio i ddechrau ar y sectorau Gweithgynhyrchu, Technolegau Ynni ac Amgylcheddol a'r Diwydiannau Creadigol
3. Rydym yn annog twf yn y sector Mentrau Cymdeithasol i gynnig cyfleoedd amgen ac ategol ar gyfer gwasanaethau a swyddi

Yn ogystal â gweithio i gefnogi busnesau yn gyffredinol, rydym yn credu ei bod yn bwysig deall cryfderau'n economi, er mwyn eu cryfhau, a'n meysydd ar gyfer twf newydd posibl, er mwyn cefnogi arallgyfeirio. Rydym yn pryderu bod economi Sir Ddinbych yn ddibynnol iawn ar un neu ddau o sectorau allweddol ar hyn o bryd ac nad yw felly'n ddigon gwydn.

Mae'r adran hon o'n Strategaeth yn canolbwyntio ar ddeall ein cryfderau presennol a sut y gellir gwneud iddynt weithio'n galetach, ein cryfderau posibl a pha sectorau y gallem fod mewn sefyllfa dda i ddenu twf ynddynt.

Nid yw'r economi yn cydnabod ffiniau sefydliadol neu wleidyddol. Mae twf economaidd yn dibynnu ar allu busnesau i gysylltu gyda, a manteisio ar gyfleoedd economaidd lle bynnag y maent wedi'u lleoli - o fewn eu marchnadoedd presennol ond gyda chyrhaeddiad daearyddol ehangach, a hefyd drwy arallgyfeirio i feysydd newydd o ran marchnad/cynnyrch.

Mae Sir Ddinbych mewn sefyllfa ddaearyddol dda i fanteisio ar gyfleoedd twf economaidd mewn economïau cyfagos, a hefyd i weithredu fel lleoliad ar gyfer twf busnes newydd ei hun.

Er y byddwn yn edrych am gyfleoedd mewn economïau cyfagos, mae ein Cynllun Datblygu Lleol a gymeradwywyd yn ddiweddar yn gwneud dyraniadau pwysig o ran tir ar gyfer cyflogaeth a thai yn y sir ei hun a fydd yn cefnogi twf economaidd, gan ddarparu tir sydd ei ddirfawr angen ar gyfer twf busnes a thai ar gyfer gweithwyr lleol. Rydym yn cydnabod bod denu busnesau a thrigolion o'r tu allan i'r sir, a hyd yn oed o'r tu allan i Gymru, yn achosi risgiau i hunaniaeth Gymreig Sir Ddinbych. Rydym yn effro i'r risgiau hyn, fodd bynnag, a byddwn yn sicrhau ein bod yn datblygu ein camau gweithredu mewn modd sy'n eu lleihau. Mae hefyd yn werth tynnu sylw at y cyfleoedd masnachol sylweddol mae datblygu yn eu cynnig i'r sector adeiladu lleol. Mae tystiolaeth yn awgrymu fod pob swydd adeiladu yn cefnogi 2.6 o swyddi pellach mewn rhannau eraill o'r economi leol. Rydym felly'n awyddus i sicrhau fod busnesau adeiladu Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd adeiladu newydd yn Sir Ddinbych ac ymhellach i ffwrdd.

Problemau a Heriau

Mae'n dadansoddiad wedi nodi'r heriau allweddol a ganlyn y credwn sydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau ein bod yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer twf yn economi Sir Ddinbych:

1. Ar hyn o bryd, mae economi Sir Ddinbych yn dibynnu'n drwm ar gyflogaeth y sector cyhoeddus, sy'n cyfrif am lawer o gyflogaeth y sir ac yn un o gyfraddau uchaf y DU. Mae risg bod y lefel uchel hwn o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn gostwng y gweithlu sydd ar gael ar gyfer y sector preifat. Hefyd, gyda'r gostyngiad mewn cyllid cyhoeddus yn debyg o barhau, ni allwn anwybyddu'r risg uchel o golledion swyddi yn y sector. Fodd bynnag, mae'r gweithlu medrus a gysylltir â gwasanaethau sector cyhoeddus ac yn broffesiynol ar y cyfan, yn ased y gellid manteisio arni ymhellach.

2. Mae 10% o swyddi Sir Ddinbych yn y maes twristiaeth. Yn gyffredinol, mae tueddiad i swyddi yn y sector hwn i fod yn dymhorol ac i'r cyflogau fod yn isel. Gallai arallgyfeirio i rannau gwerth uwch o'r sector helpu i gynyddu gwerth y swyddi ac ysgogi busnesau newydd i gael eu ffurfio.

3. Mae gan amaethyddiaeth ddylanwad cryf ar Sir Ddinbych – ar ei heconomi a'i thirwedd. Mae pwysau sylweddol yn wynebu'n busnesau amaeth a busnesau cysylltiedig. Nid yw'r Cyngor wedi buddsoddi llawer o egni yn y gorffennol yn eu harchwilio a'u deall, na'n cefnogi arallgyfeirio neu strategaethau twf eraill ar gyfer y sector. Rydym yn cydnabod bod angen i ni gryfhau ein partneriaeth â'r sector hwn, a chefnogi rhaglenni presennol a rhoi cynnig ar raglenni newydd i ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol a mynd i'r afael â materion amaeth amgylcheddol.

4. Mae sectorau eraill wedi'u tangynrychioli yn sail cyflogaeth a busnes Sir Ddinbych, fodd bynnag mae demograffeg y sir o boblogaeth gynyddol oedrannus yn awgrymu y gallai'r sector Iechyd a Gofal fod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol.

5. Mae gwerth sy'n deillio o ddarpariaeth twristiaeth Sir Ddinbych yn is nag ardaloedd cyfagos. Ar gyfer Sir Ddinbych gyfan, mae refeniw twristiaeth yn parhau i ddangos twf bychan, er bod refeniw twristiaeth arfordirol yn llai calonogol na'r refeniw twristiaeth wledig. Cynhyrchwyd refeniw gwerth cyfanswm o £304.2M gan dwristiaeth yn Sir Ddinbych yn 2011, o'i gymharu â £623.2M yn ein sir gyffiniol, Conwy.

6. Ar hyn o bryd mae cysylltiadau gwael gyda chadwyni cyflenwi a chyfleoedd cyflogaeth mewn economïau cyfagos gyda'r potensial o dwf economaidd sylweddol. Cyfrifwyd fod yr economi ar hyd coridor y M56/A55 o Fanceinion i Ynys Môn yn cynhyrchu deilliant o £31bn. Seiliwyd elfen sylweddol o hyn ar Weithgynhyrchu. Mae 6 Ardal Fenter a 2 Ranbarth Dinas o fewn cyrraedd hawdd i Sir Ddinbych. Gallai gwell cysylltiadau i'r cyfleoedd hyn gynnig bendithion i fusnesau a thrigolion.

7. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi nodi fod Gweithgynhyrchu Uwch a Thechnolegau Amgylcheddol yn sectorau realistig ar gyfer twf yng Ngogledd Cymru gyfan. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i wireddu'r cyfleoedd twf hynny. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych ran ymarferol yn y gwaith hwnnw. Ar wahân i hynny, rydym hefyd yn credu fod potensial i'r Diwydiannau Creadigol yn y sir.

Prif Gamau Gweithredu

Ein nod yw mynd i'r afael â'r materion a'r heriau, a sicrhau cynnydd tuag at gyflawni ein canlyniadau strategol ar gyfer cynyddu'r Cyfleoedd ar gyfer Twf drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Ffrwd Waith 3.1A: Datblygu ein Cryfderau: Twristiaeth

a) Archwilio a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twf/arallgyfeirio, gan ganolbwyntio'n arbennig ar:
   i. Twristiaeth awyr agored a gweithgaredd
   ii. Twristiaeth bwyd a diod
   iii. Treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg
b) Gweithio gyda darparwyr llety i wella ansawdd a maint y llety sydd ar gael i ymwelwyr ar draws y sir
c) Gweithio gyda busnesau twristiaeth yn gyffredinol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau twristiaeth
d) Cwblhau'r achos busnes a'r strategaeth Cyfleusterau Arfordirol
e) Datblygu strategaeth Digwyddiadau Sir Ddinbych, gan integreiddio digwyddiad mawr a digwyddiadau lleol

Ffrwd Waith 3.1B: Datblygu ein Cryfderau: Amaethyddiaeth

a) Sefydlu perthynas strategol gyda'r sector amaeth yn Sir Ddinbych
b) Archwilio a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy yn y sector amaeth, yn enwedig mesurau sy'n cefnogi ffermwyr a rheolwyr tir i wella eu gallu i gystadlu, lleihau eu dibyniaeth ar grantiau a'u gwneud yn fwy gwydn.

Ffrwd waith 3.2: Cyfleoedd Twf

a) Archwilio'r potensial ar gyfer twf lleol mewn sectorau newydd, gan ganolbwyntio i ddechrau Weithgynhyrchu Uwch, Technolegau Ynni ac Amgylcheddol, Iechyd a Gofal a'r Diwydiannau Creadigol.
b) Drwy brosiectau Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gwneud y gorau o'r potensial ar gyfer cysylltiadau cadwyn gyflenwi yn lleol yn y sectorau Gweithgynhyrchu a Thechnolegau Ynni ac Amgylcheddol
c) Gweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr i fanteisio ymhellach ar botensial OpTic fel canolbwynt deori technoleg uwch a hyrwyddo Parc Busnes Llanelwy yn gyffredinol fel lleoliad ar gyfer Gweithgynhyrchu Uwch (Optoelectroneg)
d) Mapio lleoliadau twf rhanbarthol (Ardaloedd Menter Glannau Dyfrdwy ac Ynys Môn, datblygiadau Ynys Ynni, y Carchar newydd, rhaglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac ati) i nodi cyfleoedd ar gyfer y gadwyn gyflenwi a gwaith

Ffrwd waith 3.3: Mentrau Cymdeithasol

a) Gweithio gyda CGGSDd i ddatblygu Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol lleol sy'n gallu cynnig cymorth a chyngor wedi'i deilwra i Fentrau Cymdeithasol a'u galluogi i gynnig opsiynau twf economaidd amgen realistig a chreu swyddi
b) Archwilio cyfleoedd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau drwy fodelau busnes mentrau cymdeithasol / cydfuddiannol / c ydweithredol

Dangosyddion Llwyddiant

Os byddwn yn llwyddo yn ein gwaith o gynyddu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd yn Sir Ddinbych, dylem ddisgwyl gweld:

- Mwy o refeniw yn cael ei gynhyrchu gan Dwristiaeth
- Mwy o fusnesau a mwy o swyddi yn y sectorau twristiaeth ac amaeth
- Datblygu a chynhyrchu mwy o gynnyrch lleol gwledig
- Mwy o fusnesau Sir Ddinbych yn gweithredu yn y sectorau Gweithgynhyrchu a Thechnolegau Ynni ac Amgylcheddol a mwy o drigolion Sir Ddinbych wedi'u cyflogi ynddynt
- Arallgyfeirio o'r sail busnes yn Sir Ddinbych
- Mwy o fentrau cymdeithasol llwyddiannus yn cynnig mwy o gyfleoedd swyddi

Canlyniadau

1. Mae preswylwyr Sir Ddinbych yn fedrus ac yn barod i fanteisio ar y swyddi a'r cyfleoedd a ddaw
2. Mae cyfraddau cyflogaeth ar draws Sir Ddinbych yn well, a bu lleihad sylweddol o ran diweithdra ymhlith ieuenctid yn arbennig
3. Mae gan fusnesau Sir Ddinbych fynediad rhwydd i weithlu sydd â'r sgiliau gofynnol i fusnesau fod yn llwyddiannus a thyfu
4. Mae gan Sir Ddinbych ddiwylliant cryf o fenter ac entrepreneuriaeth

Mae mynediad parod i weithlu o safon uchel sydd â'r sgiliau priodol yn ffactor pwysig ar gyfer busnesau. Gall helpu busnesau presennol i fod yn fwy llwyddiannus a thyfu, a gall fod yn ffactor allweddol wrth ddenu busnesau newydd i leoli mewn ardal.

Yn yr un modd, bydd trigolion mewn sefyllfa well i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth sy'n codi, yn lleol o fewn Sir Ddinbych ac mewn economïau cyfagos os oes ganddynt y sgiliau a'r profiad cywir. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi clustnodi datblygu sgiliau yn flaenoriaeth allweddol ac ar hyn o bryd yn gweithio i sefydlu Cynllun Datblygu Sgiliau rhanbarthol.

Mae Cronfa Ddata Working Futures yn dangos fod tuedd gynyddol o alw uwch am gymwysterau lefel uwch a dirywiad yn galw am gymwysterau lefel is. Mae'r ddau sector twf posibl a nodwyd ar gyfer Gogledd Cymru a Sir Ddinbych (Gweithgynhyrchu Uwch a Thechnolegau Ynni ac Amgylcheddol) yn ddibynnol iawn ar alwedigaethau gyda sgiliau uwch. Mae'r rhain yn cynnig her a chyfle i Sir Ddinbych.

Bydd deall y galw am weithwyr a'r galw am sgiliau ar bob lefel yn bwysig i'n galluogi i weithio gyda phartneriaid i wella datblygiad sgiliau a gwella mynediad i gyflogaeth ar gyfer pawb, gan gynnwys y rhai sydd bellaf oddi wrth y byd gwaith. Bydd deall y rhwystrau rhag cyflogaeth hefyd yn hanfodol. Mae cronfa sylweddol o drigolion di-waith yn parhau i fodoli yn Sir Ddinbych, a byddai modd gwella eu canlyniadau ac iddynt fod yn gronfa o weithwyr i ddiwallu anghenion busnesau sy'n ehangu ar draws Sir Ddinbych a'r tu hwnt.

Fel awdurdod addysg, mae llawer y gall y Cyngor ei wneud i wella dwyieithrwydd ymhlith ein pobl ifanc ac ymhlith ein gweithlu yn y pendraw. Bydd cynyddu hyder a rhuglder yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn helpu cefnogi busnesau ar draws y sir i ddarparu eu gwasanaethau'n ddwyieithog. Fel cyflogwr lleol o bwys, mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i wella gallu dwyieithog ei weithlu ei hun.

Problemau a Heriau

Mae ein dadansoddiad wedi nodi'r heriau allweddol canlynol y credwn sydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod gweithlu medrus o ansawdd uchel ar gael i gyflogwyr yn Sir Ddinbych a'r tu hwnt:

1. Mae gwasanaeth addysg Sir Ddinbych wedi cyflawni tuedd o welliant ar ddiwedd y cyfnod uwchradd ac addysg ôl-16 ers 2010. Mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda yn erbyn y mesurau perfformiad o ran cyd-destun ac mewn cymhariaeth â sefyllfa nifer o Gynghorau eraill. Er bod y duedd hon o welliant wedi'i chyflawni mae anghysondebau'n parhau i fodoli o ran perfformiad yn erbyn dangosyddion penodol ac mae lle i wella. Er enghraifft, mae ein canlyniadau lefel A yn uwch na chanolrif y garfan, ond mae gennym y gyfran uchaf o fyfyrwyr sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu gynllun dysgu yn y gweithle heb gymhwyster a gymeradwywyd. Hefyd, nid yw ein perfformiad cystal ag economïau cyfagos eraill yng Ngogledd Orllewin Lloegr.
2. Mae pocedi o amddifadedd sylweddol gyda lefelau uchel o ddiweithdra a segurdod economaidd, cyfrannau uchel o gymwysterau isel neu ddim cymwysterau a chyfranogiad isel mewn addysg neu hyfforddiant. Mae rhannau o Orllewin a De Orllewin y Rhyl a Dinbych Uchaf yn profi lefelau o amddifadedd sydd ymysg y 10% mwyaf eithafol yng Nghymru. Mae tystiolaeth o lefelau isel iawn o sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn yr ardaloedd hyn. Bydd canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag gweithio, gan gynnwys datblygu sgiliau yn y cymunedau hyn, yn gwella canlyniadau trigolion ac aelwydydd unigol, a hefyd yn cynyddu ffyniant economi Sir Ddinbych gyfan wrth i lefelau

incwm godi.

3. Nid yw lefelau cymwysterau yn cyfateb â'r galw am lefel uwch o gymwysterau ar draws galwedigaethau a diwydiant. Mae'r cyfrifiad diweddaraf yn awgrymu bod Sir Ddinbych yn hawlio'r tir canol o ran y nifer o drigolion sydd â chymwysterau lefel 4 ac uwch o'i gymharu ag economïau cyfagos. Disgwylir cynnydd yn y galw am gymwysterau lefel uwch yn y sectorau twf posibl, gyda disgwyl i 28% o'r rhai sy'n gweithio yn y sector gweithgynhyrchu a 26% o'r rhai yn y sector adeiladu gyflawni cymwysterau lefel 5 neu uwch.
4. Nid oes gennym ddealltwriaeth gyflawn hyd yn hyn o anghenion cyflogwyr ac mae llawer o'r wybodaeth naill ai'n anecdotaidd neu wedi'i chasglu o arolygon at ddibenion eraill. Byddai ymgysylltiad agosach yn helpu Sir Ddinbych i ddeall ei galw am sgiliau ar gyfer busnesau lleol a theilwra cymorth yn unol â hynny.
5. Mae tirwedd cymhleth o sefydliadau, rhaglenni a phrosiectau cymorth ar gael i helpu pobl i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant ac mae posibilrwydd cryf o ddyblygu, darnio a gwrthdaro
6. Mae cyfraddau diweithdra ymhlith pobl ifanc ar draws Sir Ddinbych yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel, gyda chrynodiadau sylweddol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y sir.

Prif Gamau Gweithredu

Ein nod yw mynd i'r afael â'r materion a'r heriau, a sicrhau cynnydd tuag at gyflawni ein canlyniadau strategol ar gyfer sicrhau gweithlu medrus o ansawdd uchel yn Sir Ddinbych drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Ffrwd waith 4.1: Sgiliau ar gyfer Gwaith a Bywyd

a) Adolygu rhaglenni cyfredol i gefnogi datblygiad sgiliau, yn enwedig o ran Llythrennedd, Rhifedd a TGCh yng nghyd-destun y gofyniad i gadw at fframweithiau cenedlaethol megis y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yn ogystal â newidiadau sy'n deillio o'r Grŵp Tasg a Gorffen i Adolygu'r Cwricwlwm 14-19 oed.
b) Datblygu diffiniad clir a dealltwriaeth a rennir o sgiliau 'meddal' a nodi pa sgiliau yn y cyd-destun sy'n perthyn i gwmpas cyfrifoldeb y gwahanol sectorau.
c) Cyfrannu at brosiect Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Sgiliau a Chyflogaeth, gan sicrhau yr adlewyrchir blaenoriaethau ac anghenion Sir Ddinbych yn y Cynllun Datblygu Sgiliau sy'n cael ei lunio ar gyfer Gogledd Cymru.

Ffrwd waith 4.2: Cysylltu Pobl gyda Swyddi

a) Cefnogi a herio Gyrfa Cymru i wella'r cyngor Gyrfaoedd sydd ar gael i bobl ifanc mewn ysgolion
b) Gwella ystod, ansawdd ac argaeledd cyfleoedd profiad gwaith
c) Gwella argaeledd ac ansawdd cyfleoedd prentisiaeth
d) Archwilio sut i ffurfio cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, colegau a chyflogwyr
e) Gweithio gyda Strategaeth Dinas y Rhyl i ddatblygu cynllun Broceriaeth Swyddi ar gyfer y sir gyfan er mwyn cysylltu pobl gyda chyfleoedd cyflogaeth, a chysylltu busnesau gyda gweithwyr
f) Asesu'r ffactorau sy'n achosi rhwystrau rhag gweithio i drigolion Sir Ddinbych, yn enwedig pobl ifanc, a nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a nodi pwy sy'n atebol am fwrw ymlaen â'r camau hyn.
g) Ystyried a fyddai creu Partneriaeth Cyflogadwyedd yn helpu sicrhau fod gweithgareddau a rhaglenni yn cael eu cyd-drefnu a'u hintegreiddio'n well

Ffrwd waith 4.3: Sgiliau Uwch ar gyfer Twf

a) Nodi a hyrwyddo llwybrau gyrfa mewn sectorau twf, gan ganolbwyntio'n benodol ar Weithgynhyrchu a Thechnolegau Ynni ac Amgylcheddol
b) Archwilio sut i ymgysylltu'n well gyda chyflogwyr er mwyn deall anghenion / bylchau sgiliau
c) Sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r sgiliau uwch sydd eu hangen ar gyfer sectorau twf yn effeithiol trwy gwricwlwm ysgolion / colegau

Ffrwd waith 4.4: Menter ac Entrepreneuriaeth

a) Adolygu a gwerthuso sut y caiff menter ac entrepreneuriaeth eu hyrwyddo, mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol a nodi meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt. Gallai'r rhain gynnwys:
    i. Datblygu Canolbwyntiau/Clybiau/Canolfannau Adnoddau Menter ymhellach
    ii. Cynllun mentora Menter/ Entrepreneuriaeth
    iii. Cynllun cymhelliant / bwrsariaeth Menter/ Entrepreneuriaeth

Dangosyddion Llwyddiant

Os ydym yn llwyddo yn ein gwaith i ddatblygu gweithlu medrus o ansawdd uchel yn Sir Ddinbych, dylem ddisgwyl gweld:

- Llai o bobl heb unrhyw gymwysterau
- Rhagor o bobl gyda chymwysterau lefel uwch
- Gostyngiad yn y nifer o bobl ifanc 16 - 24 oed nad ydynt mewn Gwaith, Addysg nac Hyfforddiant
- Llai o bobl ddi-waith, gyda gostyngiad sylweddol mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc
- Llai o swyddi gwag heb eu llenwi oherwydd diffyg ymgeiswyr addas
- Cynnydd mewn menter ac entrepreneuriaeth, gyda mwy o bobl yn sefydlu eu busnesau eu hunain



thema5: Trefi a chymunedau llewyrchus

Canlyniadau

1. Mae trefi Sir Ddinbych yn llewyrchus ac yn ffynnu, ac yn barod i wynebu heriau'r dyfodol
2. Mae cymunedau gwledig Sir Ddinbych yn gynaliadwy'n economaidd, rŵan ac yn y dyfodol
3. Mae gostyngiad yn y nifer o gymunedau a chartrefi yn Sir Ddinbych sy'n profi amddifadedd

Mae trefi a chymunedau iach a llawn bywyd yn bwysig am nifer o resymau. Maent yn debygol o fod yn lleoedd mwy deniadol i fyw ynddynt, gydag amgylchedd pleserus a mynediad i ystod o wasanaethau a chyfleusterau, gan felly ddarparu gwell ansawdd bywyd i'r bobl sy'n byw yno. Gall lleoedd mwy deniadol i fyw ynddynt helpu i leihau allfudo, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Cydnabyddir hefyd fod lleoedd sy'n dda i fyw ynddynt yn aml hefyd yn lleoedd da i ymweld â nhw.

Mae trefi a chymunedau llwyddiannus yn debyg o gynnig mynediad i swyddi yn y gwasanaethau a'r cyfleusterau a gynhelir ganddynt, a darparu cyfleoedd i gadw gwariant trigolion ac ymwelwyr yn yr economi leol. Rydym yn ystyried ei bod yn bwysig i ni sicrhau y caiff gwariant ei ailgylchredeg yn economi leol Sir Ddinbych - rhwng trigolion a busnesau lleol ac ymysg busnesau eu hunain.

Mae llawer o'n cymunedau eisoes yn llewyrchus ac rydym yn awyddus i'w helpu i aros felly. Yn anffodus, nid yw rhai o'n cymunedau'n gwneud cystal, ac rydym yn cydnabod y bydd angen camau pendant i'w cefnogi, a'r trigolion sy'n byw ynddynt, er mwyn sicrhau llwyddiant economaidd tebyg.

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i fod yn 'Agosach at ein Cymunedau'. Mae'n Cynlluniau Tref newydd, sy'n cael eu hehangu ar hyn o bryd i fod yn Gynlluniau Ardal, yn un ffordd o gyflawni hyn, drwy ganiatáu cymunedau i flaenoriaethu'r materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r hyn yr hoffent weld yn cael ei wneud i fynd i'r afael â nhw. Ein bwriad yw y bydd y Cynlluniau Tref ac Ardal yn dod yn gyfrwng i ddod â'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn fyw ar lefel leol.

Mae camau eraill yn y Strategaeth hon hefyd yn mynd i'r afael â nifer o'r materion sy'n wynebu'n trefi a'n cymunedau. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gyflawni'n dyheadau yn lleol ar gyfer cymunedau unigol. Wrth gyflawni'n dyheadau, hoffem feithrin dull sy'n annog Datblygu Economaidd lleol dan arweiniad ein Cymunedau. Bydd Cadwyn Clwyd yn bartner cynyddol bwysig o ran ein dyheadau ar gyfer cymunedau gwledig Sir Ddinbych.

Problemau a Heriau

Mae ein dadansoddiad wedi nodi'r heriau allweddol canlynol, y credwn sydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod ein Trefi a'n Cymunedau'n fywiog a bod ganddynt y siawns orau i allu gwrthsefyll newidiadau yn y dyfodol:

1. Mae Canol Trefi traddodiadol mewn perygl o newidiadau yn arferion defnyddwyr. Y duedd ar draws y DU yw bod dirywiad mewn mân-werthu yng nghanol trefi, yn bennaf yn sgil cyfleoedd mân-werthu tu allan i drefi ac ar-lein. Mae llai o fynediad i gredyd personol hefyd yn cael effaith wrth i incymau gael eu gwasgu dan yr amgylchiadau ariannol presennol. Yn gynyddol, mae angen i Ganol Trefi ddod yn amlbwrpas - yn fwy nag ardaloedd mân-werthu'n unig, gan gynnig cyfleoedd hamdden ac adloniant, yn ogystal â byw a gweithio.
2. Ystyrir fod trethi busnes mewn rhai trefi'n rhy uchel, yn rhy gymhleth ac yn rhoi pwysau ar fusnesau. Mae hwn yn bryder cyffredin i drefi a busnesau canol trefi ar draws y DU. Mae trethi busnes yn ffynhonnell bwysig o incwm i Lywodraethau, mae'n creu gwerth £1 biliwn o refeniw yng Nghymru. Ar yr un pryd, fodd bynnag, gallant fod yn gost sylweddol i fusnesau unigol. Mae opsiynau lleol ar gyfer lleihau'r effaith hon yn gyfyngedig iawn o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol.

3. Mae nifer o adroddiadau cenedlaethol diweddar wedi tynnu sylw at yr angen am agwedd polisi wedi'i chydlynu'n well o reoli Canol Trefi. Mae angen annog gwahanol wasanaethau gweithredol i gydweithio ac ystyried Canol Trefi fel ardal weithredol gydlynol yn hytrach nac ardaloedd unigol o draffig, parcio, siopau, busnesau, gofod agored etc.
4. Gall diffygion isadeiledd a gwasanaethau mewn rhai cymunedau gwledig beryglu cynaladwyedd yn y dyfodol. Gall isadeiledd cludiant a TGCh gwael, ynghyd ag argaeledd tai fforddiadwy a mynediad is at wasanaethau a swyddi mewn cymunedau gwledig gyfrannu at eu gwneud yn llai deniadol fel lleoedd i fyw i rai preswylwyr ac o ganlyniad i fusnesau fuddsoddi.
5. Ar yr un pryd, mae'n her i gydbwyso datblygiad gyda gwarchod yr amgylchedd naturiol a'r cyd-destun gwledig. Mae llawer o bobl yn dewis lleoliadau mwy gwledig am eu bod yn cynnig bywyd distawach a llai prysur.
6. Mae'r pocedi o amddifadedd sylweddol yn y Rhyl a Dinbych Uchaf yn parhau'n faterion allweddol, sy'n effeithio ar ganlyniadau trigolion unigol a llwyddiant cyffredinol economi Sir Ddinbych gyfan
7. Gallai lefelau amddifadedd gwledig fod yn guddiedig a heb eu deall yn iawn. Mae dealltwriaeth gynyddol y gall rhai mesuriadau amddifadedd mwy safonol amcangyfrif lefelau rhy isel mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae tystiolaeth hefyd y gall rhai materion gael effaith anghymesur ar bobl mewn ardaloedd gwledig - incwm a thai, mynediad i wasanaethau, a chysylltiadau cludiant gwael - gan fygwth 'cylch o amddifadedd gwledig'.
8. Mae allfudiad poblogaeth iau yn peryglu cynaliadwyedd cymunedau Sir Ddinbych yn y dyfodol.
9. Mae Polisi Amaeth Cyffredin newydd yr UE a ddaw i rym yn fuan a'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cynnig cyfleoedd ariannu sylweddol i fynd i'r afael â phroblemau ardal wledig Sir Ddinbych. Rydym yn credu fod ein dyheadau'n cyd-fynd i raddau helaeth â'r blaenoriaethau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2013.

Prif Gamau Gweithredu

Ein nod yw mynd i'r afael â'r materion a'r heriau, a sicrhau cynnydd tuag at gyflawni ein canlyniadau strategol ar gyfer sicrhau Trefi a chymunedau bywiog ar draws Sir Ddinbych drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Ffrwd waith 5.1: Canol Trefi / Prif Strydoedd y Dyfodol

a) Datblygu mentrau ar gyfer siopau gwag - gan gynnwys gwelliannau gweledol, defnyddiau dros dro a sicrhau tenantiaid newydd parhaol
b) Datblygu cynlluniau i hyrwyddo a helpu mân-werthwyr annibynnol
c) Hyrwyddo arallgyfeirio a chyflwyno defnyddiau newydd, heb law am fân-werthu a fydd yn helpu i gynnal bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi a gwella'r economi gyda'r nos
d) Adolygu rheolaeth parcio / traffig ym mhob tref ac ystyried newidiadau a fydd yn hyrwyddo cynaliadwyedd neu dwf economaidd

Ffrwd waith 5.2: Sir Ddinbych Wledig

a) Archwilio a hyrwyddo cyfleoedd i arallgyfeirio i gefnogi twf mewn ardaloedd gwledig ar draws pob sector, yn unol â strategaeth wledig Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru.
b) Datblygu mentrau i hyrwyddo cynhyrchu/gwerthu bwyd lleol - gan gynnwys ystyried problemau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi i siopau, marchnadoedd, caffis, bwytai a gwestai lleol.
c) Asesu mynediad i nwyddau a gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig

Ffrwd waith 5.3: Mynd i'r Afael ag Amddifadedd a Thlodi

a) Cyflawni prosiectau blaenoriaeth o fewn ffrydiau gwaith y rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen

   i. Twristiaeth Arfordirol
   ii. Canol y Dref
   iii. Gwella Tai / Cymdogaethau Gorllewin y Rhyl
   iv. Byw a Gweithio yn y Rhyl

b) Gweithio gyda, a chefnogi, Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych i fynd i'r afael ag achosion amddifadedd a gwella canlyniadau i drigolion y Rhyl a Dinbych Uchaf

c) Datblygu ymagwedd sir gyfan i ddeall a mynd i'r afael ag amddifadedd a thlodi

Dangosyddion Llwyddiant

Os bydd ein gwaith yn llwyddo i sicrhau Trefi a chymunedau bywiog a gwydn ar draws Sir Ddinbych, dylem ddisgwyl gweld:

- Llai o unedau gwag a mwy o bobl yn ymweld â chanol ein trefi
- Mwy o drigolion yn fodlon gyda chanol eu tref
- Mwy o drigolion ardaloedd gwledig yn fodlon gyda'r lle maent yn byw
- Mwy o fusnesau canol y dref a gwledig yn teimlo'n hyderus am y dyfodol
- Llai o amddifadedd, cyfraddau diweithdra is a lefelau uwch o incwm cyfartalog ar draws Sir Ddinbych

Canlyniadau

1. Cydnabyddir Sir Ddinbych fel lle arbennig i fyw ynddo ac mae'n llwyddiannus wrth ddenu pobl i fyw neu aros yn ei threfi a'i chymunedau
2. Caiff Sir Ddinbych ei chydnabod fel lle arbennig i ymweld ag ef ac mae ganddi rôl allweddol wrth sicrhau bod Gogledd Cymru yn un o 5 cyrchfan orau'r DU i ymwelwyr
3. Caiff Sir Ddinbych ei chydnabod fel lle deniadol i fusnesau ac mae'n llwyddiannus wrth ddenu busnesau newydd a chadw busnesau presennol sy'n tyfu

Drwy gydol ein hymgynghoriadau cynnar ar yr hyn oedd ei angen i ddatblygu'r economi yn Sir Ddinbych, un o'r sylwadau mwyaf cyffredin oedd nad oedd Sir Ddinbych yn gwneud digon i hyrwyddo a marchnata ei holl asedau mor effeithiol ag y gallai.

Yn draddodiadol, rhoddwyd yr ymdrech fwyaf i hyrwyddo darpariaeth Sir Ddinbych i ymwelwyr, ond hyd yn oed wedyn mae pryder ein bod yn colli cyfleoedd allweddol a marchnadoedd newydd sy'n amlygu eu hunain. Ychydig o sylw, os o gwbl, a roddwyd i hyrwyddo Sir Ddinbych fel lleoliad ar gyfer busnes / mewnfuddsoddi neu fel lle gwych i ddewis byw ynddo.

Er mwyn i farchnata a hyrwyddo fod yn effeithiol, mae angen i nifer o bethau fod yn eu lle. Mae angen i ni ddeall yn glir pwy rydym yn marchnata iddynt a pham. Wedyn mae angen i ni deilwra'n neges i'w gwneud mor effeithiol â phosibl a sicrhau ein bod yn defnyddio'r dulliau, sianeli a'r cyfryngau cywir i gyfleu ein neges. Mae ansawdd yr hyrwyddo'n bwysicach na'i amlder.

Mae hefyd angen i ni ddeall beth rydym eisiau ei hyrwyddo a'i farchnata, a sut y bydd ein cynulleidfaoedd targed yn ein hadnabod, yn hytrach na sut rydym ni'n adnabod ein hunain. Weithiau, gall fod yn briodol i farchnata Sir Ddinbych gyfan, ond yn aml bydd angen i ni fod yn fwy penodol, gan hyrwyddo elfennau ac asedau unigol. Mae nifer o frandiau eisoes yn cael eu defnyddio ar draws y sir. Nid ein bwriad yw cael dim ond un brand ar gyfer Sir Ddinbych, ond yn hytrach defnyddio'r brand neu'r hunaniaeth sydd fwyaf priodol dan yr amgylchiadau. Bydd yn bwysig, fodd bynnag, er mwyn sicrhau fod brandiau a negeseuon unigol yn glir, yn cael eu deall ac nad ydynt yn gwrthdaro na'n cystadlu'n ddiangen gyda'i gilydd.

Fodd bynnag , yn ogystal â sicrhau bod ein gweithgarwch hyrwyddo'n effeithiol, mae hefyd angen i ni wneud yn siŵr bod realiti ein cynnyrch (Sir Ddinbych) yn cyfateb â'n haddewid. Bydd rhywfaint o'r gweithgareddau i sicrhau fod hyn yn digwydd y tu allan i gwmpas y Strategaeth hon, yn benodol drwy'r blaenoriaethau eraill yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych. Mae agweddau eraill eisoes wedi'u hamlygu mewn adrannau eraill o'r Strategaeth hon - er enghraifft, isadeiledd ar gyfer twf busnes dan Thema 1 a gweithredu i gefnogi bywiogrwydd ein trefi a'n cymunedau fel lleoedd i fyw ac ymweld â nhw dan Thema 5.

Problemau a Heriau

Mae ein dadansoddiad wedi nodi'r heriau allweddol a ganlyn y credwn sydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod Sir Ddinbych yn cael ei hyrwyddo'n dda i bob cynulleidfa darged:

1. Mae angen i ni gytuno ar gynulleidfaoedd / marchnadoedd targed a theilwra ein gweithgarwch hybu yn unol â hynny. Nid yw'n glir ein bod yn deall hyn ar hyn o bryd ac mae ein negeseuon, felly, yn gallu bod yn ddryslyd ac aneffeithiol.
2. Mae natur ddwyieithog Sir Ddinbych yn nodwedd allweddol y dylid ei hyrwyddo fwy yn ein negeseuon marchnata - yn enwedig ar gyfer ymwelwyr, gan greu ymdeimlad unigryw o le a hunaniaeth a darpariaeth sy'n gyfoethog o ran diwylliant a threftadaeth
3. Gallai'r negeseuon ar gyfer mewnfuddsoddi / adleoli busnesau (technoleg uwch, amgylchedd bywiog) wrthdaro â'r rhai ar gyfer ymwelwyr (yr amgylchedd naturiol, amgylchfyd heddychlon). Mae'r ddau'n gywir ac yn gallu bod yn gywir. Mae angen i ni ddeall sut i reoli'r negeseuon lluosog hyn heb wrthddweud neu achosi dryswch.
4. Efallai nad yw brand Sir Ddinbych yn ddigon ar ei ben ei hun. Mae'n hanfodol ein bod yn integreiddio gydag ymgyrchoedd hyrwyddo ehangach, yn ogystal â deall pa frand i'w defnyddio, pryd a sut.

5. Mae rheoli cyrchfan (cynnyrch) yr un mor bwysig â hyrwyddo effeithiol er mwyn sicrhau bod y profiad yn cyfateb â'r disgwyliadau. Mae Rheoli Cyrchfan eisoes yn gysyniad a ddeellir yn dda yn y sector ymwelwyr / twristiaeth, ond mae'r un mor berthnasol i gyflawni'r 'addewid' y tu ôl weithgarwch hyrwyddo mewnfuddsoddi. Bydd angen ystyried hyn ymhellach os ydym am fod yn llwyddiannus yn ein gweithgarwch.
6. Mae dulliau hyrwyddo'n newid a bydd angen mabwysiadu dulliau aml-sianel. Yn benodol, mae'n debyg y bydd angen i ni ddibynnu llai ar gyfryngau print traddodiadol a gwneud mwy o ddefnydd – a defnydd mwy effeithiol – o sianeli cyfrwng cymdeithasol a chyfleoedd PR. Rydym hefyd yn ymwybodol fod dulliau hyrwyddo 'o un person i'r llall' yn effeithiol a bydd angen eu harchwilio.

Prif Gamau Gweithredu

Ein nod yw mynd i'r afael â'r materion a'r heriau, a sicrhau cynnydd tuag at gyflawni ein canlyniadau strategol ar gyfer hyrwyddo a marchnata Sir Ddinbych yn effeithiol drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Ffrwd waith 6.1: Marchnata Effeithiol

a) Cynnal ymchwil y farchnad i ddeall mwy am ein marchnadoedd a'n cynulleidfaoedd targed, anghenion a dewisiadau ein cwsmeriaid, a'n cystadleuwyr, gan ein galluogi i deilwra ein gweithgarwch hyrwyddo er mwyn cael yr effaith fwyaf.
b) Nodi a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio ag eraill ar farchnata Sir Ddinbych drwy gryfhau'r cysylltiadau ag ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol a rhanbarthol
c) Datblygu gwaith hyrwyddo effeithiol i Sir Ddinbych, gan ymgorffori dulliau cyfathrebu traddodiadol a mwy newydd, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol penodol a chysylltiadau cyhoeddus
d) Deall a manteisio fwy ar arwyddocâd Cymru fel marchnad ar gyfer ymwelwyr i Sir Ddinbych.
e) Annog trigolion lleol i weld Sir Ddinbych fel lle i 'ymweld' ag o yn ogystal ag yn byw ynddo
f) Gweithio gyda busnesau lleol a chynrychiolwyr cymunedau i sefydlu 'hyrwyddwyr' ar gyfer Sir Ddinbych, a fydd yn hyrwyddo'r sir fel lle gwych i fyw, gweithio, gweithredu busnes ac ymweld ag o.
g) Gweithio gyda gwerthwyr tai a datblygwyr tai i gryfhau'r gwaith o hyrwyddo trefi a chymunedau Sir Ddinbych fel mannau dymunol i fyw ynddynt.
h) Targedu gyda'n partneriaid, digwyddiadau diwydiant priodol i hyrwyddo Sir Ddinbych i ymwelwyr a busnesau posibl, gan ddefnyddio neges gyffredinol a rennir i sicrhau fod ein gweithgarwch marchnata ar y cyd yn cael gymaint o effaith â phosibl.

Ffrwd waith 6.2: Rheoli Cyrchfan

a) Cwblhau Cynllun Rheoli Cyrchfan ar gyfer Sir Ddinbych a chyfnerthu Partneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych
b) Sefydlu dull cydlynol i sicrhau ymateb proffesiynol a llyfn i ymholiadau ynglŷn â Mewnfuddsoddi
c) Parhau i ddatblygu a sefydlu Cynlluniau Tref ac Ardal, ar draws Gwasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor, gyda phartneriaid ac yn y cymunedau eu hunain.
d) Datblygu a gweithredu dull cydlynol o fynd i'r afael â safleoedd a nodwyd oedd yn ddolur llygad ar draws y sir

Dangosyddion Llwyddiant

Os byddwn yn llwyddo yn ein gwaith i sicrhau ein bod yn hyrwyddo a marchnata Sir Ddinbych a'i hasedau'n effeithiol, dylem ddisgwyl gweld:

- Nifer iach o werthiant tai a thai newydd yn cael eu hadeiladu
- Mwy o bob yn symud i'r ardal i fyw a gweithio
- Niferoedd cynyddol yn ymweld, ac yn gwario
- Mwy o fusnesau'n ceisio lleoli yn Sir Ddinbych
- Mwy o drigolion yn fodlon gyda'r lle maent yn byw

Gweithredu
Mae'r weledigaeth yn y Strategaeth hon yn un hirdymor, ac rydym yn cydnabod hefyd ei bod yn un uchelgeisiol. Rydym wedi ymrwymo, fodd bynnag, i wneud cynnydd tuag at ei chyflawni. Mae Cynllun Cyflawni ynghlwm wrth y Strategaeth hon. Mae'n amlinellu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd dros y 4 blynedd nesaf i ddechrau gwireddu ein Uchelgais Economaidd ac Amgylcheddol ar gyfer Sir Ddinbych.

Ar hyn o bryd, mae llawer o'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar y 2 flynedd gyntaf, a nod llawer o'r camau gweithredu cynnar yw deall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu economi Sir Ddinbych yn well a beth yw’r ffordd orau i fynd i'r afael â hynny. Wrth weithredu’r Cynllun Cyflawni, bydd camau gweithredu’n cael eu hychwanegu, diwygio neu eu dileu wrth i amgylchiadau newid ac i’r cynlluniau gael eu cyflawni.

Bydd nifer o gyfraniadau gan ein gwahanol bartneriaid yn mynd law yn llaw â gweithredoedd y Cyngor. Mae rhai o'r rhain wedi’u hadlewyrchu yn y Cynllun Cyflawni. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid ac yn cydnabod y byddai’r effaith ar yr economi leol yn llai pwerus heb eu cymorth. Rydym yn gobeithio y bydd y weledigaeth rydym wedi’i hamlinellu yn helpu partneriaid fod yn glir ynglŷn â’u cyfraniad a bydd yn eu helpu i siapio eu blaenoriaethau ar gyfer Sir Ddinbych yn llwyddiannus.

Adnoddau i'r Camau Gweithredu
Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, bydd Cyngor Sir Ddinbych a’i bartneriaid yn wynebu sefyllfa ariannol anodd dros y blynyddoedd i ddod. Er gwaethaf y sefyllfa anodd hon, mae'r Cyngor wedi amlinellu ei ddyheadau a’i uchelgeisiau yn ei Gynllun Corfforaethol ac mae wedi cynnwys strategaeth ariannol yn y Cynllun i gefnogi ei weithrediad.

At ei gilydd, mae’r Cynllun Corfforaethol yn amcangyfrif y bydd angen buddsoddiad o £134m i wireddu uchelgais y Cynllun Corfforaethol yn ei gyfanrwydd, a dyrannwyd £2m o hynny i ddatblygu'r economi leol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Corfforaethol yn cydnabod na ellir rhoi sicrwydd o’r arian hwn ac y gallai fod angen i ni addasu’n rhagolygon a’n cynlluniau buddsoddi os bydd newid i sefyllfa ariannol y Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf.

Dyrannwyd £160K yn ychwanegol yng nghyllideb 2013/14 ar gyfer cyflawni blaenoriaeth datblygu economaidd yn y Cynllun Corfforaethol. Roedd hyn ar ben y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2011/12 a 2012/13 i gefnogi gweithrediad gweithgarwch adfywio’r Cyngor a’i Gynlluniau Tref ac Ardal newydd.

Ynghyd â chyllidebau gwasanaeth presennol a chyfleoedd am gyllid grant allanol gan yr UE, Llywodraeth Cymru a ffynonellau eraill, bydd yr arian ychwanegol hwn yn gwneud llawer i gyflawni Uchelgais Economaidd a Chymunedol y Cyngor a amlinellir yn y Strategaeth hon. Wrth ddatblygu prosiectau a gweithgareddau unigol, bydd yn glir os bydd angen arian ychwanegol a gellir ystyried hyn yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

Un adnodd allweddol sydd ar gael i'r Cyngor yw amser a gwaith ei weithwyr. Nid cyfrifoldeb penodol un o wasanaethau’r Cyngor yw'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'r Cynllun Cyflawni a bydd angen cyfraniadau gan bob tîm ac adran os ydym am lwyddo i wireddu’n dyheadau. Mae'r Cynllun Cyflenwi sydd ynghlwm i’r Strategaeth hon yn nodi’r timau rydym yn credu sydd angen arwain ar ddarnau unigol o waith.

Cyflenwi’r strategaeth

Un o ymrwymiadau pwysig y Strategaeth hon yw y bydd holl wasanaethau'r Cyngor yn deall eu cyfraniad tuag at ddatblygu'r economi leol a bydd yn trefnu eu gweithrediadau o ddydd i ddydd i gefnogi’n huchelgeisiau cyffredinol. Nodwyd fod angen rhoi blaenoriaeth i greu diwylliant lle mae pob gwasanaeth yn deall y materion sy'n wynebu busnesau a bod darparu ymatebion sy’n gyfeillgar i fusnesau yn dod yn rhywbeth arferol.

Er nad cyfrifoldeb un rhan o’r Cyngor yn unig yw cyflawni'r Strategaeth, bydd gan rai timau ran amlycach nag eraill. Eleni, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad gwreiddyn a changen o'i gefnogaeth i fusnesau a datblygu economaidd. Canfu'r adolygiad, er bod swyddogion yn gweithio'n galed i gefnogi twf economaidd, bod strwythurau sefydliadol yn mynd yn y ffordd ac yn aml yn anodd eu deall, yn enwedig i fusnesau roedd y timau’n ceisio eu cefnogi. Yn ôl adborth gan ddetholiad o fusnesau lleol roedd y Cyngor yn sefydliad cymhleth, biwrocrataidd ac adweithiol i ddelio â nhw.

O ganlyniad, mae gwasanaeth newydd wedi’i ddatblygu gydag un Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes yn arwain 3 o dimau ardal (Arfordirol, Gogledd a De) gyda chefnogaeth gan Dîm Arian Allanol arbenigol. Bwriad y strwythur newydd yw sicrhau gwell hyblygrwydd wrth ddefnyddio adnoddau staff a galluogi mwy o gymhwyster a gallu rheng flaen i gyflwyno prosiectau a blaenoriaethau allweddol. Y nod hefyd yw dod â'r Cyngor yn nes at y gymuned fusnes. Bydd staff yn cael eu defnyddio o fewn y timau i ddarparu cymorth lleol i fusnesau a chyflwyno camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth hon.

Ar yr un pryd, ymgorfforwyd cefnogaeth twristiaeth yng ngweithgarwch Marchnata a Digwyddiadau ehangach y Cyngor drwy’r Tîm Marchnata a Digwyddiadau newydd. Bydd hyn yn caniatáu ymagwedd fwy rhagweithiol ac wedi’i chydlynu tuag at hyrwyddo Sir Ddinbych a'i chyfleoedd.

Bydd Cynlluniau Gwasanaeth y ddau dîm yn adlewyrchu'r camau blaenoriaeth a gytunwyd arnynt trwy'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

Monitro Cynnydd

Bydd trefn fonitro a gwerthuso gadarn yn sail i'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflenwi. Mae cyfres o ddangosyddion wedi’u nodi ac wedi’u cyhoeddi law yn llaw â'r Strategaeth hon. Bydd y dangosyddion yn cael eu defnyddio i fesur effaith ein gweithredoedd. Yn ystod blwyddyn gyntaf y Strategaeth, byddwn yn casglu gwaelodlin lawn o'r dangosyddion canlyniadau er mwyn caniatáu asesu cynnydd wrth i’r camau gweithredu gael eu rhoi ar waith.

Nid dim ond proses o adlewyrchu ar ôl gweithredu’r Strategaeth fydd y broses fonitro a gwerthuso. Bydd yn weithgaredd parhaus sy’n rhoi gwybodaeth i gyfrannu at benderfyniadau a galluogi gwneud newidiadau yn ôl yr angen. Drwy gydol ei hoes, bydd adolygiad blynyddol o’r Strategaeth, ei gweithrediad a’i heffaith yn cael ei lunio i asesu cynnydd a chanfod unrhyw newidiadau y gellid bod eu hangen i sicrhau bod yr Uchelgais cyffredinol yn cael ei wireddu.

Bydd camau gweithredu'r Strategaeth yn cael eu monitro drwy brosiect a system reoli rhaglenni’r Cyngor, gyda hyder cyflenwi ar gyfer elfennau unigol o'r Cynllun Cyflawni yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob 6 mis o fewn system adrodd ar berfformiad cyffredinol y Cyngor.

Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn ddogfen gynhwysfawr ac eang, gyda goblygiadau ar draws nifer o wasanaethau a phortffolios y Cyngor a’r tu hwnt. Mae ei weithrediad a’i effaith yn drosfwaol.

O fewn y Cyngor, yr Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd sydd â chyfrifoldeb gwleidyddol cyffredinol ar lefel y Cabinet am ddatblygu a chyflawni'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Mae gan yr Aelodau Arweiniol dros Dwristiaeth, Ieuenctid a Hamdden, Parth Cyhoeddus, Addysg a Chwsmeriaid a Chymunedau hefyd gyfrifoldeb gwleidyddol am elfennau pwysig o’r Strategaeth gyffredinol. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Uchelgais Economaidd a Chymunedol sy'n gyfrifol am sicrhau cydlyniad cyffredinol a chyflawni a gweithredu’r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

Er mwyn cynorthwyo gyda llywodraethu, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Ei swyddogaeth yw datblygu, trefnu, cyfeirio a goruchwylio gweithrediad y gwahanol brosiectau a gweithgareddau a amlinellir yng Nghynllun Cyflawni’r Strategaeth. Bydd yn monitro’r cynnydd a'r effaith, yn cynorthwyo i ddatrys problemau a goresgyn rhwystrau rhag cyflawni, ac yn argymell newidiadau yn ôl yr angen yn ystod oes y Strategaeth. Un o brif swyddogaethau’r Bwrdd Rhaglen fydd sicrhau bod prosiectau a gweithgareddau’n cyflawni’r manteision a fwriadwyd.

Bydd y Bwrdd Rhaglen hefyd yn gyfrifol am ganfod risgiau a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni’r Strategaeth. Yn ystod blwyddyn gyntaf y Strategaeth, bydd Cofrestr Risg yn cael ei datblygu i alluogi'r Bwrdd Rhaglen i ymgymryd â'r dasg hon yn effeithiol.

Aelodaeth gychwynnol y Bwrdd Rhaglen fydd:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol, Uchelgais Economaidd a Chymunedol
- Aelod Arweiniol, Datblygu Economaidd
- Aelod Arweiniol, Twristiaeth, Ieuenctid a Hamdden (hefyd ar gyfer y Gymraeg)
- Aelod Arweiniol, Parth Cyhoeddus
- Cynrychiolydd o bob un o'r 3 Pwyllgor Craffu
- Pennaeth Gwasanaeth, Tai a Datblygu Cymunedol
- Pennaeth Gwasanaeth, Addysg
- Pennaeth Gwasanaeth, Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden
- Pennaeth Gwasanaeth, Cyllid ac Asedau

Byddwn yn adolygu Aelodaeth wrth i’r gyfres o brosiectau sy'n rhan o’r Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol gyffredinol ddatblygu.

Bydd yn cael ei archwilio drwy adroddiadau perfformiad rheolaidd y Cyngor sy'n ymdrin â gweithrediad y Cynllun Corfforaethol, a bydd cyfle i'r Pwyllgorau Archwilio gynnal adolygiadau ar brosiectau neu weithgareddau unigol fel y bo'n briodol.

Wrth i’r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol gael ei datblygu ac yn ystod yr ymgynghori arni, gwnaed nifer o sylwadau am y nifer o bartneriaid sy'n cymryd rhan ymarferol wrth gefnogi economi leol Sir Ddinbych. Awgrymwyd hefyd efallai y byddai’n werth sefydlu Partneriaeth Economaidd ledled y sir i gynnig fforwm ar gyfer adolygu, monitro a blaenoriaethu parhaus. Rydym yn rhoi ystyriaeth ymarferol i’r syniad hwn ar hyn o bryd ac, os bydd yn cael ei sefydlu, gallai ddatblygu i fod yn rhan bwysig o'r trefniadau cyflenwi a monitro ar gyfer y Strategaeth.

Geirfa

BIPBC - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ardaloedd Gwella Busnes – Cynlluniau wedi'u harwain / ariannu gan fusnesau i wella ardal fasnachol benodol, fel canol tref neu ystâd ddiwydiannol drwy wasanaethau ychwanegol neu fentrau newydd.

Gyrfa Cymru - Darparwr cyngor ac arweiniad gyrfaoedd cenedlaethol.

Partneriaeth Fenter Lleol Sir Gaer a Warrington - Partneriaeth Fenter Lleol wirfoddol rhwng awdurdodau lleol a busnesau a ffurfiwyd i helpu penderfynu ar flaenoriaethau economaidd lleol ac arwain twf economaidd yn ei ardal leol.

Dinas Ranbarth - ardal economaidd a gwleidyddol sy'n cynnwys cydweithrediad traws-ffiniol rhwng awdurdodau lleol ar feysydd polisi strategol megis twf economaidd, cludiant, twristiaeth, diwylliant, tai ac isadeiledd.

CSDd - Cyngor Sir Ddinbych

Cynllun Cyflawni - cynllun yn amlinellu'r prif gamau gweithredu, amserlenni a chyfrifoldebau arweiniol i wneud iddynt ddigwydd.

Cynllun Mawr Sir Ddinbych - Dwyn ynghyd y weledigaeth strategol tymor hir ar gyfer y sir, gyda strategaeth i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles pobl y sir, cynllun strategol ar gyfer popeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, a chynllun amlasiantaeth ar gyfer mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn yn y sir.

Ardaloedd Menter - Ardaloedd o gwmpas y wlad sy'n cefnogi busnesau newydd a rhai sy'n ehangu drwy gynnig cymhellion.

Polisi Amaeth Cyffredin yr UE - polisi amaeth yr Undeb Ewropeaidd, sy'n ceisio sicrhau safon byw teg i ffermwyr, darparu cyflenwad bwyd sefydlog a diogel am brisiau fforddiadwy i ddefnyddwyr, a datblygu ardaloedd gwledig yn gytbwys.

Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) - grŵp pwyso ac ymgyrchu mwyaf yn y DU sy'n hyrwyddo ac yn diogelu buddiannau pobl hunangyflogedig a pherchnogion cwmnïau bach.

Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) - Mesur o werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, diwydiant neu sector o'r economi.

TGCh - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

Dangosyddion Llwyddiant - ystadegau a gasglwyd i helpu mesur cynnydd tuag at gyflawni canlyniad.

Broceriaeth Swyddi - y broses o roi cymorth ymarferol i alluogi pobl i gael hyfforddiant a chymwysterau mynediad sy'n gysylltiedig â chyfleoedd swyddi go iawn.

Cynllun Datblygu Lleol - Set o ddogfennau'n cynnwys polisïau / cynigion awdurdod lleol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn eu hardal. Mae'n arwain ac yn hysbysu penderfyniadau o ddydd i ddydd ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.

Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) - Yn gyfrifol am Y Cynllun Mawr, sy'n dwyn ynghyd arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol Sir Ddinbych i gydweithio i wneud gwasanaethau'n fwy effeithiol.

Incwm canolrif aelwydydd - Defnyddir i gynhyrchu data am ardaloedd daearyddol, gan rannu'r cartrefi'n ddwy ran gyfartal sy'n ennill llai/mwy na'r canolrif.

Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy - Partneriaeth sy'n cefnogi gweithgarwch economaidd strategol ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru, Gorllewin Sir Gaer a Chilgwri.

Rhaglen Moderneiddio Addysg - rhaglen o welliannau ffisegol dan arweiniad CSDd i ddarparu'r nifer a'r math cywir o leoedd mewn ysgolion, yn y lleoliadau cywir.

Fframwaith Caffael Gwaith Adeiladu Gogledd Cymru - Dyluniwyd i greu arbedion cost ac amser sylweddol ar gyfer dechrau gwaith adeiladu mawr ar draws Gogledd Cymru.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Partneriaeth o 6 Chyngor Gogledd Cymru ynghyd â phartneriaid Addysg, Llywodraeth Cymru a'r sector preifat lleol. Sefydlwyd i hyrwyddo cydweithio mewn datblygu economaidd yng Ngogledd Cymru gan ganolbwyntio ar ynni a'r amgylchedd, deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch a hyrwyddo mewnfuddsoddi.

OpTiC – Canolfan Dechnoleg Optoelectroneg a Deori, ym Mharc Busnes Llanelwy.

Canlyniadau - Canlyniadau terfynol / newidiadau y gellir eu gweld.

Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen – Rhaglen adfywio sy'n integreiddio adfywiad ffisegol, economaidd a chymdeithasol yn y Rhyl.

Mentrau Cymdeithasol – Busnes sy'n masnachu at ddibenion cymdeithasol / amgylcheddol.

Sgiliau cyflogaeth 'meddal' - Rhinweddau, arferion, agweddau a gras cymdeithasol personol sy'n gwneud rhywun yn weithiwr da.

Cyflymu Cymru – Rhaglen gan Lywodraeth Cymru a BT i ddod â band eang cyflym iawn i ardaloedd sydd y tu allan i gynlluniau'r sector preifat.

TAITH - Bwrdd ar y cyd rhwng chwe Chyngor Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni gwelliannau i isadeiledd a gwasanaethau cludiant ar draws y rhanbarth.

LIC - Llywodraeth Cymru.

Cronfa Ddata Working Futures - Yn cynnwys rhagolygon manwl ar gyfer cyflogaeth, cynhyrchiant, cyflenwad llafur a sgiliau gwybodaeth.